

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

**Rhifyn 316 - 60c
Medi 2013**

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Rhys Meirion
yn derbyn
Siec hael**



Tudalen 2

**Llwyddiant
yn y Sioe
Frenhinol**



Tudalen 16

**Dyfodol yr
Eisteddfod
yn ddiogel**



Tudalen 30

Llwyddiant ysgubol yn nigwyddiadau'r haf



Yn ennill y gadair i rai dan 25 oed yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen mae Siwan Davies, Llanwenog. Mae Siwan eisioes wedi ennill cadair Rhyng-golegol Myfyrwyr Cymru.



Yn Adran y defaid Llanwenog yn y Sioe Frenhinol cipiodd Huw Evans, Llanwenog y Pencampwr a'r gilwobr am ei hwrdd dwyflwydd a'i ddafad blwydd. Yn y llun mae Gareth Evans yn ei gynorthwyo.



Carwyn Davies, C.Ff.I. Llanwenog yn ennill y Cwpan yn y gystadleuaeth 'Anrheg Celtaidd' yn yr Adran C.Ff.I.



Agorwyd Ffair Fwyd Llambed eleni yn swyddogol gan Lyn Ebenezer, a gyflwynodd hefyd y darian am y stondin orau i 'Cwca Cartre' - Dorothy Williams, Mair Page, Eluned Hopkins a Ceinwen Jenkins. Yn y llun hefyd mae Chris Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor.

Taith Cerdded Cerddwn Ymlaen a Llwyddiant Disgyblion



Y cerddwyr yn cyrraedd Cwmann.



Rhai o ddisgyblion Ysgol Carreg Hirfaen.



Dyma gynrychiolwyr o Ysgol Bro Pedr, Adran ac Aelwyd Llambled yn cyflwyno sic o'r elw sef £361.07 i Rhys Meirion.



Glenda, Ann, Eleri a Meinir a fu'n cerdded o Dalsarn i Lanrhystud.




Robin McBryde a Glenda



WEDI CAEL CANIATAD CYNLLUNIO AC EISIAU ADEILADWR?

PEIDIWCH AG EDRYCH DIM PELLACH...

RYDYN NI'N DELIO Â PHOB AGWEDD O'R GWAITH;
ADEILADU TAI NEWYDD, ADNEWYDDU, ESTYNIADAU AC ADDASIADAU.
O'R CYNLLUNIO I'R CWBLHAU.



- GWAITH COED • TOI • FFENESTRI A DRYSAU • GRISIAU •
- CEGINNAU • YSTAFELLOEDD 'MOLCHI • LLORIAU PREN •
- RHEOLI PROSIECT • DULLIAU EGGI AMGEN A'U GOSOD •



www.cartrefircwm.co.uk

Cartrefir Cwm, 1 Tynyffordd, Rhydybont, Llanybydder, Carmarthenshire, SA40 9QU

Ffôn: 01570 480 214 • Symudol: 07814 027 849 • E Bost: info@cartrefircwm.co.uk



Disgyblion Ysgol Bro Pedr a dderbyniodd ganlyniadau arbennig yn eu harholiadau TGAU.



Disgyblion Ysgol Bro Pedr yn derbyn canlyniadau Lefel A gwyh
O'r chwith - Dafydd Williams; Lizzie Douglas; Cari Lake; Melanie Morris; Vaughan Evans; Elin Gwyther; Marian Thomas; Delun Davies ac Aina Rosdi.

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Medi Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Hydref Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn lluniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn lluniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gweplyfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncyn
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Ateb o'r diwedd

Dro'n ôl fe ysgrifennais am 'Hen Feddygyniaethau' ac fe soniais am 'Eli Cilgwyn' ac am 'Eli Dremddu'. Diolch i un o ddarlennwyr 'Clonc' daethpwyd o hyd i'r esboniad diddorol iawn. Jen Cairns, y ditectif ffeithiau, ac Eleri Davies, Pentre, ddaeth o hyd i'r ateb. Cadwai'r diweddar Johnny Bayliu (tad Eleri), hen lyfr cownt am weithgareddau y fferm. Ynghanol y llyfr roedd darn o bapur gyda'r geiriau 'Eli Cilgwyn' arno, ac ynddo roedd yr esboniad. Fferm yw Cilgwyn ym mhlwyf Llangybi. Ar dir y fferm yma dechreuodd cynulliad o addolwyr adeiladu capel yno. Symudwyd yr addoldy yn ddiweddarach i bentref Llangybi.

Eli at losg tân oedd hwn. Roedd yn cynnwys bloneg dafad (mutton fat) resin a chwy'r (beeswax). Daw'r resin o'r goeden 'Llarwydden' (larch) ac fe'i defnyddiwyd mewn hen feddygyniaethau – roedd resin yn un o gynhwysion 'Thus a Myrrh'. Yn ôl hen lyfr cownt 'Capel Cilgwyn' (sydd ar goll erbyn hyn); pan adeiladwyd 'Capel Cilgwyn' yn y pentre fe blannwyd coed llarwydd a symudwyd o'r Cilgwyn, a'u plannu ger y capel newydd.

Diolch o galon i Eleri a Jen am eu cymorth – mae llawer o lwyddiant ein papur bro yn dibynnu ar eich cyfraniadau.

Cofiwch fod y darnau papur a'r dyddiaduron a'ch hen lyfrau cownt yn ddeunydd pwysig hanesyddol.

Os nad y'ch chi eisiau eu cadw, rhowch nhw i rywun fydd yn eu gwerthfawrogi.

Cael fy rhoi yn fy lle

Sawl un wedi gwneud sylw am y gwaith o edrych ar ôl yr ŵyl sy'n flwydd a hanner. Mae'r ŵyres wedyn yn dair oed. Roedd Alys yma'r pen wythnos ac yn chwarae bod yn athrawes. Mamgu yn dweud wrthi fod Tadu wedi bod yn athro. Dyma hi'n edrych arna i am sbel hir, ac yna'n troi at mamgu ac meddai, "pell bell yn ôl". Diawch rwy'n gwybod nawr fy mod i'n heneiddo!

Sylwedolais hyn wrth ymweld â'r ffatri wlân yn Drefach Felindre. Un o'r plant oedd gennyf yn ysgol y Dolau yn gweithio yno â cherdyn mawr ar y drws yn dweud ei fod yn 60 oed y diwrnod hwnnw. 'Doedd Alys ddim yn bell o'u lle!!

Llongyfarchiadau i bob un o ddarlennwyr 'Clonc' sydd wedi llwyddo mewn arholiadau yn ddiweddar. Cofiwch fod rhywbeth newydd i'w ddysgu bob dydd. Pob hwyl am y Flwyddyn Academaidd nesaf.

CLONCYN

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Croeso i ŵyl fawr Llambled!

Er mwyn dathlu pen-blwydd y cylchgrawn yn 25 oed, mae cwmni Golwg yn cynnal gŵyl fawr yn Llambled a'r cylch ar benwythnos llawn cynta' mis Medi.

Mae Gŵyl Golwg yn cynnwys dwy noson o adloniant a diwrnod llawn o weithgareddau, gyda'r cyfle i flasau 26 o sesiynau am ddim ond £5 ... a llond lle o stondinau.

Dyma'r drefn:

Noson Gomedi – Golwg Go Whith – yn Theatr Felinfach, nos Iau, 5 Medi. Gary Slaymaker a gêm banel gydag Aeron Pughe, Eirlys Bellin, Ifan Gruffydd, Iwan John, Ifan Jones Evans a Heledd Cynwal. Pris - £8

Gig Gŵyl Golwg, Neuadd Celfyddydau, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, nos Wener, 6 Medi – Noson gyfan o enwau mawr, am ddim ond £8. Yn eu plith mae Bob Delyn a'r Ebillion, sydd hefyd yn dathlu eu pen-blwydd yn 25. Hefyd Cowbois Rhos Botwnnog, Elin Fflur a'r bandiau lleol Bromas a Mellt.

Gŵyl Golwg – campws Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llambled, dydd Sadwrn, 7 Medi o 11.00 y bore tan tua 7.30 fin nos. Diwrnod cyfan o weithgareddau am ddim ond £5 ymlaen llaw neu £8 ar y dydd. A phlant oed ysgol gynradd yn rhad ac am ddim!

Mewn gwirionedd, mae yna bedair gŵyl mewn un.

- Gŵyl Roc – Mwy na saith awr o roc a gwerin mewn pabell arbennig, gan gynnwys Fflur Dafydd, Gildas a Dewi Pws a Radwm.

- Stafell Sgwrsio – trafod llyfrau poblogaidd, fel hunangofiant Dafydd Hywel 'Alff Garnant' neu Blasu gan Manon Steffan Ros. A digwyddiad mawr – Darlith Goffa gynta' Islwyn Ffowc Elis, gan un arall o gyn drigolion Llambled, Gerwyn Williams.

- Gŵyl Ddigidol – diwrnod cyfan o drafod a dysgu yn Y Cwmwl, o apps i flogio a gwneud ffilm gyda ffôn symudol.

- Gŵyl y Plant – yng nghwmni Wew a'i ffrindiau – Dona Direidi a Rwdlan, er enghraifft a Sioe Fach Wew ei hun.

Mae yna weithgareddau celf hefyd i blant yn y Gweithdy, gydag artistiaid Adran Gelf a Dylunio y Brifysgol – Gwenllian Beynon, Iwan Bala a Peter Finemore.

Rhoi Llambled ar y map

"Roedden ni eisio diolch i Lanbed am fod yn gartref i Golwg ers chwarter canrif," meddai Golygydd Gyfarwyddwr y cwmni, Dylan Iorwerth.

"Ac fel gyda'r penderfyniad i sefydlu yn y cylch, rydyn ni'n gobeithio y bydd yr Ŵyl yn dod â bywyd i strydoedd Llambled a sylw i gyfoeth yr ardal.

"Os bydd yr ŵyl gynta' yma yn llwyddiant, mi fyddwn ni'n barod i roi cynnig ar gynnal rhywbeth tebyg bob blwyddyn. Felly'r neges ydi, dewch i gefnogi a rhoi Llambled ar y map!"



MEDI

- 9 Cyfarfod agoriadol Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan yn Shiloh am 7.30y.h.
- 10 Cinio Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi yn y Grannell am 7.30y.h.
- 13 Noson Caws a Gwin a bach o feddwl yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7.30y.h. Panel o siaradwyr – Dafydd Iwan, Mererid Hopwood a'r Parch Eric Jones. Cadeirio'r Panel – Dylan Iorwerth. Mynediad drwy docyn - £5 ar gael wrth Parch Wyn Thomas, Parch Cen Llwyd neu Siop Y Smotyn Du.
- 14 Diwrnod Hwyl Drefach i ddechrau am 2.00y.p.
- 18 Cwrdd Diolchgarwch Maesffynnon, Llangybi am 2.00y.p. Pregethwr gwadd fydd y Parch Geraint Davies, Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.
- 21 Mi fydd taith dywys hamddenol o tua dwy awr yn gadael o Amgueddfa Wlân Cymru, o amgylch adeiladau hanesyddol Drefach Felindre a Chwmhiraeth am 10.30yb.
- 22 Cwrdd Diolchgarwch Capel Ebeneser, Llangybi am 2.00y.p. Y gŵr gwadd fydd y Parch Densil Morgan o Lamed. Croeso cynnes i bawb.
- 25 Cyfarfod Diolchgarwch Eglwys Shiloh am 7.00y.h. Disgwylir i wasanaethu y Parch Carys Ann Glynarthen. Croeso cynnes i bawb.
- 28 Arddangosfa a Ras Hwyl yn Neuadd yr Eglwys Maesycrugiau i ddathlu 70 mlwydd oed C.Ff.I. Llanllwni. Os oes gan rhywun unrhyw hanes / gwybodaeth all y clwb fenthg i'r arddangosfa cysylltwch â Meryl Davies ar 01559 384217 / 07791 305614.
- 29 Gymanfa Ganu i ddathlu 70 mlwydd oed y clwb.

HYDREF

- 1 Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder am 7.00y.h. yn yr ysgol.
- 4 Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Betws.
- 4 Noson yng nghwmni Gwenan Gibbard a Meinir Gwilym, Festri Brondeifi, 7y.h. Trefnir gan Blaid Cymru Llamed a'r cylch. Tocynnau £10.
- 5 Sioe Ffasiwn yr Urdd gan 'duet a lan llofft' yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant am 4.30y.p. Tocynnau ar werth yn y siop.
- 6 Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Sant Cybi, Llangybi 7.00y.h.
- 7 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7.00y.h. Pregethir gan Miss Beth Davies, Gorrig.
- 8 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan. Gwasanaethir gan Mrs Delyth Morgans Phillips, Llamed. Croeso cynnes i bawb.
- 11 Eisteddfod Ddwl Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
- 11 Cyngerdd Mawreddog yn Neuadd y Ddraig Goch Drefach Felindre i ddechrau am 7.30 y.h. Artistiaid: Dai Jones, Llanilar, Gwawr a Dafydd Edwards, Elin Davies, Sam Jones a Côr Meibion Caron. Tocyn - £10. Elw at Apêl Pennyfarthing. Yn cefnogi Ymchwil Cancr Cymru.
- 11 Noson Caws a Gwin yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers gydag elw y noson yn mynd tuag at Eisteddfod 2014 i Ardal Ffaldybrenin a Ffarmers.
- 15 Sefydliad Prydening y Galon, Cangen Llanybydder a Llamed yn cynnal Noson Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8 y.h.
- 17 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.
- 26 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint am rhagor o fanylion Mair Williams ar 01558 650292.
- 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

TACHWEDD

- 1 Cinio Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yn y coleg. Adloniant gan Clive Edwards. Tocynnau ar gael gan yr ysgrifennydd Iwan Williams 422370.
- 2 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 9 Gŵyl Cerdd Dant Genedlaethol Cymru ym Mhafiliwn Y Bont.
- 17 Gymanfa Ganu Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yng nghapel Shiloh dan arweiniad Carys Lewis am 7.00y.h. Cyfeilydd Bryan Jones.
- 22 Cyngerdd yn Neuadd Bro Fana gan barti bechgyn 'Ar Wasgar' i godi arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn Sir Gâr yn 2014.

Llanwnnen

18 oed

Dathlodd Daniel Cooper, Arwel, 22 Bro Grannell a Guto Jones, Neuadd Fawr eu pen-blwyddi yn 18 oed yn ystod yr wythnosau diwethaf yma.

Cartref Newydd

Yn ystod yr haf symudodd Roy, Ceinwen ac Aled Roach o 5 Bro Llan i'w cartref newydd ym Maes-yr-Wyn. Pob hapusrwydd i chwi yno.

Llwyddiant

Ar ôl derbyn gradd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg o Brifysgol Cymru Aberystwyth mae Aled Wyn Thomas, 1 Sycamore Terrace yn un o ddau fyfyrwr sydd wedi derbyn gwobr arbennig gan y Brifysgol am dorri'r record am y radd â'r cyfartaledd uchaf.

Mae Aled hefyd wedi cael y fraint yn ddiweddar o ganu fel rhan o driawd, ar gais Tywysog Cymru a Duges Cernyw mewn noson draddodiadol Gymreig a drefnwyd ganddynt yn eu cartref ym Myddfai ac o ganu fel aelod o Gôr Ieuencid Cymru yn noson agoriadol y Proms

y BBC yn Neuadd Frenhinol Albert, Llundain. Llongyfrachiadau a dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol Aled.

Gwellhad Buan

Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mrs Gwen Davies, Llys Aeron sydd wedi derbyn llaw driniaeth yn Ysbyty Tywysog Phillip yn Llanelli.

Pwyllgor Lles Llanwnnen

Gwibdaith yr haf

Marchnad Machynlleth ac yna am Dolgellau, Tywyn ac Aberdyfi

Dydd Mercher Medi 18fed


Bydd y bws yn gadael Llamed am 8.45 a Llanwnnen am 9.00 y bore. Enwau i Mr Haydn Richards ar 480279, Mrs Gwen Davies ar 481152 neu Mrs Ann Hughes ar 422654.



Gwenllian Jenkins, Llysfaen Uchaf wedi bod yn helpu allan yn mhencampwraeth Ewrop i fenywod dan 19 sydd yn cael ei gynnal yng Ngorllewin Cymru. Cafodd ei dewis i ddal baner Cymru yn y gêm rhwng Lloegr a Chymru ym Mharc y Scarlets a bu hefyd yn helpu yn ystod gêm Lloegr a Ffrainc yn Stebonhaeth. Roedd yn anrhydedd mawr i Gwenllian ac yn brofiad i gofio am byth. Cafodd hi git melyn a du wrth Adidas i gadw gan eu bod wedi gwneud hyn.



Lynwen Jenkins, un o rieni'r ysgol yn torri cacen i ddathlu ei chanfed sesiwn o arwain 'Campau'r Ddraig' yn Ysgol Gynradd Llanwnnen. Mae Lynwen wedi bod yn arwain yn ddi-fwlch ers 2006. I gydnabod ei hymroddiad derbyniodd dusw o rosynnau gan Alwyn Davies, Rheolwr Pobl Ifanc Egniol. Hefyd yn y llun mae Pete Ebbsworth, Pennaeth Cynorthwyol.



Ruby Rose

**Bwtic anrhegion
a chartref hynafol.**

2 Market Place, Llanbed
01570 422359
rubyroselampeter@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gatau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbed

☎01570 423135

☎07811917799 /

07968821035

✉ mwniciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed

Teifi

Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies

01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Pencarreg

Prif ferch

Llongyfarchiadau i Siân Elin Williams, Muriau Gwyn ar gael ei dewis yn brif ferch Ysgol Bro Pedr ar gyfer 2013-14. Mae'n anrhydedd mawr a phob hwyl yn ystod dy flwyddyn arbennig Siân Elin.

Ffair Ffanstastig



Llun: Lleucu Meinir

Bendithiwyd Ffair Pencarreg drwy'r dydd gyda'r haul yn ei anterth gan sicrhau bod yr achlysur cyfan yn llwyddiant ysgubol. Trefnwyd y ffair

yn bennaf gan Rachael Thomas yn sgil ei hapwyntiad yn Warden y bobl Eglwys Sant Padrig.

Cafodd gefnogaeth bobl ifanc o bob oedran gan ein bod yn unfrydol eisiau sicrhau dyfodol yr unig adeilad cyhoeddus yn ein pentref ac sydd mewn cyflwr bregus. Codwyd tua £3,000 i atgyweirio'r eglwys, swm aruthrol gan mai dyma'r ffair gyntaf i'w chynnal yn pentref. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi a mwynhau'r dydd ger y llyn.



Llun: Lleucu Meinir

Adferiad iechyd

Yn dilyn anffawd mae Annie Thomas, Dolwar fach, Pencarreg wedi gorfod treulio gwyliau'r haf â'i choes mewn plastar. Dymunwn wellhad buan i Annie fach.



Llun: Lleucu Meinir



Caryl ar y Brig

Mae Caryl Jacob, Frondeg wedi bod yn brysus yn dangos 'Roci' ei Shetland mewn nifer o sioeau yn ystod yr haf.

Gwnaeth y Shetland ei farc yn Llanelwedd gan ddod yn Sed o 15eg. Sioe Llambod cyntaf a Cilwobr y Pencampwyr. Llandeilo – cyntaf ac i glodfori'r cyfan yn Sioe Cothi Bridge cyntaf a'r Pencampwr.

Yn ogystal â chystadlu mewn sioeau mae Caryl wedi bod yn chwarae 'touch rygbi' ac yn aelod o dîm y Gorllewin Gwyllt. Ardderchog Caryl. Dymunwn bob llwyddiant i ti a Roci a mwynha'r rygbi ymysg nifer o ddiddordebau eraill.



Llwyddiant Rachael

Llongyfarchiadau i Rachael Thomas, Dolwar Fach am ennill y wobwr gyntaf yn Sioe Sir Benfro am farchogaeth ei chobyn Gwyddelig, 'Corrigan'. Ef oedd y pencampwr a chyflwynwyd hi â Chwpan arian er cof am Sheila Bedford. Dal ati Rachael.

Her Tri Chopa



Dros benwythnos y 6ed a'r 7fed o Orffennaf gwnaeth criw o 28 o ffrindiau o'r ardal rhwng Caerfyrddin a Llambled ymgymryd â her Taith Tri Chopa Cymru 2013. Wrth godi gyda'r wawr ar fore dydd Sadwrn rhaid oedd paratoi ar gyfer dringo'r Wyddfa ar hyd llwybr Rhyd Ddu. Roedd y tywydd yn edrych yn ffafrïol a phawb yn barod am yr her gyntaf. Roedd hwyliau da gan y criw ac yn wir gwnaethom amser da iawn wrth ddringo'r Wyddfa. Yn aros ar y gwaelod roedd beiciau yr 17 oedd am seiclo'r 40 milltir o'r Wyddfa lawr i Gadair Idris gyda'r cerddwyr a'r criw cerbydau cefnogi yn barod i'n dilyn. Braf oedd cael ein diweddaru gyda sgôr gêm y Llewod gan ein criw cefnogi, yn enwedig wrth bedlo lan rhiw yn ddibaid tuag at Drawsffynydd. Cyrhaeddodd waelod y Gadair yn ddiogel a phawb yn barod am ginio cyn dechrau dringo llwybr Pilin Pwn am Ben y Gadair. Gwasgarodd y cymylau a daeth yr haul i ddangos golygfeydd godidog o ardal Dolgellau wrth i ni gerdded y grisiau di-ddiwedd. Cofion fod y boen roeddem ni yn mynd trwyddi yn ddim i'w gymharu a phoen dioddefwyr cancr pancreatig y mae elusen Amser Justin Time yn ei gefnogi. Ond golygfa a phrofiad amrhisiadwy oedd yn aros amdanom ar y copa a ninnau yn eistedd yng nghanol yr awyr las. Diwedd glo da i'r diwrnod cyntaf a phawb yn barod am eu gwlaau ar ôl llond bol o fwyd.

Doedd y coesau ddim mor sionc wrth godi gyda'r wawr ar fore dydd Sul ond rhaid oedd gwneud er mwyn dechrau'r daith o seiclo 100 milltir o Ddolgellau i Ben y Fan a doeddem ddim yn disgwyl mlaen am

yr esgyniad i Ddinas Mawddwy. Ond roedd ein cefnogwyr wrthlaw i 'whoopan' a dawnsio wrth i'r seiclwyr fynd heibio a chodi ein calonnau. Codi wnaeth y gwres hefyd ar y Sul hwnnw wrth iddi droi mas i fod yn un o ddiwrnodau twyma'r flwyddyn. Rhaid oedd cofio pam ein bod yn gwneud y Daith ar adegau fel hyn ac ein bod yn codi arian i helpu miloedd o bobl yn Burkina Faso yn Affrica sy'n dioddef o sychder ofnadwy gydol y flwyddyn ac yna daw'r llyfogydd sydyn i ddinistrio eu cynnyrch amaeth a'u bywoliaeth. Brwydron ymlaen, fel y gwna pobl Burkina Faso bob dydd, ac wrth i Murray oroesi, llwyddon ninnau hefyd. Ar ôl seiclo 92 milltir, yr artaith olaf oedd 8 milltir lan o Aberhonddu i Ben y Fan â thorf o gefnogwyr, teulu a ffrindiau yn aros amdanom. Y dasg olaf oedd dringo Pen y Fan ond tro hyn gydag ychwaneg o ffrindiau a theulu i'n helpu i gyrraedd y nod. Pleser oedd cyrraedd y brig gan wybod ein bod wedi cyflawni y Daith a thrwy hynny wedi codi miloedd o bunnau tuag at Coda Ni partner Cymorth Cristnogol ym mhrhosiect Burkina Faso ac Amser Justin Time.

Carwn ddiolch i bawb am eu cymorth a'u rhoddion tuag at Daith Tri Chopa Cymru 2013, mae'r rhestr yn ddi-ddiwedd. Diolch hefyd i bawb a wnaeth y Noson Rasus Moch ac Ocsiwn, ar nos wener Mehefin y 7fed ym Mhafiliwn Pontargothi, yn gymaint o lwyddiant gan godi dros £3,300 tuag at y Daith a'r elusennau. Os hoffech gyfrannu tuag at yr achos medrwh ddal wneud hynny ar www.justgiving.com/teams/taithtrichopa

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Y Plas
8.30
15 Medi

Sut fyddai bywyd mewn plasty Cymreig crand ym 1910? Cawn flas ar y cyfnod wrth i deulu ac unigolion symud i Blas Llanerchaeron i fyw, i weithio ac i hamddena fel y bonedd a'r gweithlu.

s4c.co.uk

darganfod, discover
Ceredigion
www.darganfodceredigion.co.uk

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Noson Gwylwyr

7.00
Nos Fawrth
17 Medi
Theatr Felinfach

Cyfle i gwrdd â Phrif Weithredwr S4C a Chadeirydd yr Awdurdod. Dewch i roi eich barn am raglenni a gwasanaethau S4C.

Darperir lluniaeth ysgafn.

s4c.co.uk

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Gwifren Gwylwyr S4C ar 0870 600 4141 neu gwifren@s4c.co.uk
Darperir system ddolen sain ac offer cylfieithu.



Aelodau Côr Meibion Cwmann a'r Cylch a fu yn cynnal cyngerdd yng Nghwmann i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014. Codwyd £643.65 a chyflwynodd y Cadeirydd Cyril Davies, Elonwy Davies, Arweinyddes ac Elonwy Pugh, Cyfeilyddes y siec i'r Cyng Ieuan Davies, Ann Davies a Jennie Bracher ar ran Apêl Sir Gâr. Roedd y noson wedi ei threfnu gan David Hopkin Jones (canol ail res).

Côr Cwmann a'r Cylch

Ar Nos Fercher Mehefin 26ain cynhaliodd y côr noson o Fefus, Hufen a Chân yng Nghanolfan Gymunedol Cwmann i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Sir Gaerfyrddin 2014. Rhoddwyd y danteithion i gyd gan David Jones, aelod o'r côr a rhai aelodau eraill. Erbyn saith o'r gloch 'roedd y Ganolfan yn llawn.

Ar ôl y bwyta cafwyd eitemau gan y côr yn ogystal ag unawdau gan Kees Huysmans, Deiniol Williams a Lowri Elen. Cyril Davies, cadeirydd y côr oedd yn llywyddu'r noson ac yn ystod y rhaglen cafodd pawb ganu tair o alawon cyfarwydd gyda'r côr. Diolchodd i'r chwiorydd a phawb arall a fu yn helpu ac ar ran y Pwyllgor Apêl bu y Cyngorydd Ieuan Davies yn diolch i bawb a fu yn trefnu noson mor hwylus. O ganlyniad i'r noson fe godwyd yn agos i chwe chant a hanner o bunoedd tuag at nod Pwyllgor Apêl Cwmann a Llanybydder.

Mae'r côr wedi bod yn perfformio ar Lwyfan y Maes ar brynhawn Dydd Iau yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cylch ar ddechrau Mis Awst.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Iestyn Russell, Bryncelyn ar ennill ei radd BSC o Brifysgol Harper Adams. Ennillodd Iestyn ysgoloriaeth Elwyn Jones drwy fudiad Ffermyr Ifanc Cymru ac erbyn hyn mae ar ei daith yn Seland Newydd. Pob lwc yn y dyfodol.

Gwellhad Buan

Rydym yn meddwl am June James, Maesteg sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli yn ystod y mis.

Llongyfarchiadau

Beca Roberts o Ysgol Carreg Hirfaen, Cwmann yn derbyn y

drydedd wobwr yng nghystadleuaeth Aquathlon yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr Beca.

Diolch

Dymuna Luned Lewis, Tanlan ddiolch i bawb am y cyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Gwerthfawroga garedigrwyd pob un.

Ffair Ram

Cynhelir Ffair Ram ar gae pentref Cwmann ar yr 14eg Medi. Y llywyddion eleni fydd Mr a Mrs Arthur Roderick, Awelon, Llanbed. Dylid mynd â defaid a nwyddau rhwng 10 a 11.30 y bore. Cysylltwch ag Eiddig Jones 422655 neu Danny Davies 423692 am fwy o wybodaeth. Gellir lawrlwytho'r rhaglen o wefan www.ffairram.btck.co.uk Cofiwch ddod i gefnogi ac i fwynhau'r diwrnod.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dylan, Dafydd a'u teuluoedd Ty Cerrig a Phantmeiniog, Eiddig a Gwen, Gellidewi Uchaf, Teulu Tanlan a Bryndolau yn eu profedigaeth annisgwyl.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i John a June James, Maesteg ar ddathlu ei pen-blwydd priodas yn ystod yr haf.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau calonog i Mrs Eluned Lewis, Tanlan ar ddathlu ei 90 oed ym mis Awst.

Baban newydd

Llongyfarchiadau i Siân a Gethin Jones, Croesor ar enedigath merch fach, Esther Llwyd a chwaer fach i Gwenllian a Tudur ac wyres newydd i Ronnie ac Ann Roberts, Brynview.

Llwyddiant Eisteddfodol

Rwy'n siŵr fod holl ddarllenwyr Clonc am longyfarch Eleri Owen Edwards, Cilycwm am ennill y Rhuban Glas yn Eisteddfod Dinbych a'r Cyffiniau.

Gradd

Llongyfarchiadau i Fiona Jones, Llys Teifi ar ennill gradd mewn Addysg o Goleg y Drindod, Caerfyrddin.

Eglwys Sant Iago

Aeth aelodau a ffrindiau Eglwys Sant Iago ar eu pererindod blynyddol ar ddydd Sul, 18fed Awst. Roedd y tywydd yn braf gan roi cyfle i werthfawrogi y golygfeydd godidog yn ardal Powys.

Cychwynwyd am 9.00y.b. o faes parcio'r eglwys, ymlaen i Ben-y-Bont lle cawsom gyfle i ymweld â siop Thomos' sydd yn atyniad i ymwelwyr ac yn gyfle i weld yr hen bethau Cymraeg, ynghyd â chrefftau Cymraeg, gwaith llaw gan artistiaid lleol ac amryw nwyddau eraill. Hefyd cafwyd cyfle i gael cwpanaid o de a blasu yr amryw deisennau oedd ar gael mewn awyrgylch hynafol. Cawsom amser diddorol iawn yn mynd o amgylch.

Yna, ymlaen â ni i ymweld â 'Ty Cwrdd y Crynwyr' – 'Y Pales' – y tŷ. Cwrdd hynaf i'r crynwyr yng Nghymru a ddefnyddiwyd yn ddi-dor. Mae mewn lle cyn prydferth iawn yn y bryniau uchel Llandegla. Ymwelodd George Fox sefydlwr y crynwyr dair gwaith a sir Faesyfed – y tro cyntaf yn 1657. Diddorol iawn roedd mynd o amgylch a darllen yr hanes a chael cyfle i ymdawelu a myfyrto yn y tŷ? Cwrdd â'i do gwellt, yna allan i werthfawrogi y golygfeydd a'r tawelwch ac ymweld â'r fynwent a'r gerddi.

Yn ôl i Landrindod lle bu cymdeithasu hyfryd wrth i bawb ymuno mewn pryd o ginio blasus iawn yng ngwesty y 'Metropole'.

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

14eg Medi 2013

Llywyddion: Mr a Mrs Arthur Roderick, Awelon

Sioe, Cystadlaethau CFfl, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar, Bwyd ac atyniadau eraill.



Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beiriadau yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Eiddig Jones 422655

Cawsom gyfle cyn gadael i weld y bobl lleol yn cerdded o amgylch yn ei gwisgoedd Fictorianaid oherwydd roedd yn ddiwrnod cyntaf o'r Wyl Fictorianaid yn Llandrindod.

Ein galwad olaf oedd i ymweld â hen eglwys y plwyf Llandrindod lle cysegrwyd yr Archesgob cyntaf o'r Eglwys yng Nghymru sef Alfred George – esgob St Asaph. Arweiniodd y ficer gwasanaeth o ddarlleniadau a gweddïau yn yr eglwys fach hynafol ac roedd yr awyrgylch yn fendithiol iawn – diweddglo teilwng i ddiwrnod diddorol ac hanesyddol iawn. Diolchodd y ficer i Pat Jones am drefnu taith mor bleserus a diddorol ac i bawb am bob cymorth i sicrhau llwyddiant y diwrnod.

Clwb 225 – mis Gorffennaf

£20 – 199 – Mr L. King, Tafarn Jem, Cwmann. £15 – 1 – Gwynfor ac Ann Lewis, Bronwydd, Heol-y-Bont, Llambled. £10 – 73 – Mr a. Roderick, Awelon, Heol-y-Bont, Llambled. £10 – 93 – Mrs Muriel McMullan, 44 Heol Hathren, Cwmann. £10 – 75 – Mrs June James, Maesteg, Cae Ram, Cwmann. £10 – 55 – Danny Davies, Brynteifi, Cwmann. £10 – 153 – Meirion a Nelian Williams, Brongest, Llambled. £5 – 15 – Wynzie a Mair Richards, Maesteg, Cwmann. £5 – 85 – Owain a Bethan Jones, Trewerin, Cwmann. £5 – 96 – Mr & Mrs Evans, Hafdre, Cwmann.

Clwb 225 – mis Awst

£20 – 140 – Wynford Thomas, Pantygwin, Cellan. £15 – 40 – Aled Williams, Sarn Helen, Cwmann. £10 – 49 – Amanda Evans, Annwylfan, Llanllwni. £10 – 84 – Mrs Helen Davies, Tanyresgair, Cwmann. £10 – 209 – Mr & Mrs Dave Milton, Gannets, Aberystwyth. £10 – 102 – Tom Davies Jones, Glanhelen, North Rd, Llambled. £10 – 175 – Tom Harries, Castle View, Llanllwni. £5 – 115 – Bryn Gregson, Werna, Cwmann. £5 – 39 – Dylan a Carys Davies, 8 Cysgod y Coed, Cwmann. £5 – 52 – Vernon Jones, 40A High Street, Llambled.

Cwmann

Clwb 125 – Neuadd Sant Iago mis Gorffennaf

£20 – 106 – Mrs Pat Jones, Glanathren, Cwmann. £10 – 147 – Mr Chris Lloyd, 7 Heol Hathren, Cwmann. £5 – 102 – Cai Luker, 36 Heol Hathren, Cwmann. £5 – 143 – Canon Wynzie Richards, Maesteyf, Cwmann. £5 – 138 – Mr Phillip Lodwick, Penrhyn, Cwmann. £5 – 6 – Mrs Audrey Bonner, Heol-y-Bont, Llambled. £5 – 37 – Mrs Eva Brown, Ty Helyg, Cwmann. £5 – 56 – Mrs Ann Davies, Brynteifi, Cwmann. £5 – 132 – Shirley Northam, 38 Bro einon, Llanybydder.

Clwb 125 – Neuadd Sant Iago mis Awst

£20 – 56 – Mrs Ann Davies, Brynteifi, Cwmann. £10 – 23 – Edwin Harries, 8 Nantglyn, Cwmann. £5 – 36 – Graham Evans, Felinfach, Cwmann. £5 – 7 – Tony Lewis, Brynawel, Cwmann. £5 – 91 – Eiry Jones, Eielyn, Bryn Steffan, Llambled. £5 – 31 – Rhydian lloyd, Brynywawr, Pumsaint. £5 – 141 – Stephanie James, 15 Bro Llan, Llanwnnen. £5 – 22 – Lena Williams, 39 Heol Hathren,

Cwmann. £5 – 24 – Dafydd Davies, Ger-y-nant, Drefach.

Cyfarfod Blynyddol - Carreg Hirfaen Ysgol Feithrin

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ar ddydd Gwener 26ain o Fehefin 2013.

Dyma restr o swyddogion newydd ar gyfer pwyllgor ysgol feithrin 2013-2014.

Shan Davies - Cadeirydd; Emma Gray - Trysorydd; Heather Hughes - Ysgrifenyddes - Fiona Jones a Hayley Evans - Person Cofrestredig Hoffai rheini y Meithrin roi diolch i'r swyddogion 2012-2013 am ei holl waith.

Kay Lewis - Cadeirydd; Emma Gray - Trysorydd; Rhiannon Thomas - Ysgrifenyddes; Fiona Jones a Dawn Mason-Ling am fod y Person Cofrestredig

Arholiad Delyn

Llongyrfachiadau i Mari Elen Lewis, Cwmann ar ei harholiad Telyn Gradd 4, ac yn cael Merit. Mae Mari Elen Lewis yn cael ei dysgu gyda Georgina Cornock.

Llwyddiant Eisteddfodol



Elan Jones, Araul a enillodd gystadleuaeth Lefaru 9 – 12 oed [Cyfyngedig] yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen dros benwythnos Gŵyl y Banc mis Awst. Da iawn ti Elan.



Llanybydder

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr yn Llanelli yn 2014

Ar y 7fed o Orffennaf cafwyd noson arbennig iawn yng nghwmni Clive Edwards, Cwmlis. Roedd y noson yn cael ei chynnal er mwyn codi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr yn Llanelli yn 2014. Codwyd £1,352.50 at yr chos.

Llwydd y noson oedd Mr Teifi Humphreys-Jones, Caerdydd ac fe roddodd yn hael iawn at yr achos. Yn anffodus roedd yn methu bod yn bresennol a gwnaeth ei fam siarad ar ei ran.



Yn y llun mae'r Cynghorydd Ieuan Davies yn cyflwyno blodau i Mrs Sara Humphreys-Jones, Alltbylaca.



Daith Gerdded

Roedd plant Ysgol Carreg Hirfaen a phlant Carreg Hirfaen y Meithrin wedi cynnal taith gerdded o Dafarn Jem i Garreg Hirfaen nos Wener 5ed o Orffennaf. Dyma lun o rai o'r plant meithrin a gymrodd rhan.



Trip Cylch Meithrin

Roedd trip eleni yn mynd i'r fferm Fêl, Cei Newydd ac wedyn ymlaen i Aberaeron am bicnic. Cafodd y trip ei gynnal ar ddydd Gwener 19eg o Orffennaf. Dyma lun o'r plant meithrin ym mharc Aberaeron.



Cyflwynwyd sic am £600.00 er cof am y diweddar Vincent Evans uwch aelod o'r Frawdoliaeth yn Llanbedr Pont Steffan i Gronfa 'The Fire Service Benovelent' Llanbedr Pont Steffan yn ddiweddar. Adrian Thomas, Meistr Anrhydeddus o Peterwell Cyfrinfa Seiri Rhyddion, ynghyd â merch Mr Evans, Annabel ac Andy Aynsley yn trosglwyddo sic i Tim Dicker, Rheolwr Brigad Ddan Llanbedr Pont Steffan. Hefyd yn y llun mae y criw Brigad Ddan Llanbedr Pont Steffan ac aelodau o Peterwell Lodge.



Parti Unsain Agored yn Eisteddfod Llambled - 3. Adran yr Urdd, Llambled



CFFI CEREDIGION

Gyda'r cnwd yn yr ydian a'r gwyliau haf wedi dirwyn i ben, mae'n amser ail-gydio yn nigwyddiadau'r Ffermwyr Ifainc, ac mae'n argoeli i fod yn flwyddyn arbennig arall i'r CFFI gyda nifer o glybiau'r Sir yn dathlu carreg filltir arbennig. Llongyfarchiadau i'r holl aelodau a fu'n llwyddiannus yn graddio, yn yr arholiadau Lefel A a TGAU. Cyn mynd ymlaen dyma gipolwg o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod Haf 2013.

Chwaraeon

Cynhaliwyd Athletau'r Sir yn mis Mehefin gyda chystadlaethau maes a thrac, cafwyd llawer o sbort, llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran a'r clwb buddugol yn Chwaraeon y Sir eleni oedd CFFI Pontsian gyda Mydroilyn a Llanwenog yn gydradd 2il. Cynhaliwyd y Rygbi 7 bob ochr hefyd yn Aberaeron a llongyfarchiadau i dim Caerwedros ar ddod yn fuddugol.

Yng nghystadlaethau Chwaraeon Cymru ym mis Mehefin a gynhaliwyd ar gampws Ysgol Bro Pedr llongyfarchiadau i'r canlynol am ddod a chlôd i'r sir; Tîm Hoci Cymysg Pontsian am gipio'r wobwr gyntaf, tîm cymysg Pontsian a Bro'r Dderi ar ennill yr Ultimate Frisbee, ac fe ddaeth tîm Dodgeball Pontsian a thîm Pêl-Droed Llanddewi Brefi i'r trydydd safle. Llongyfarchiadau ichi gyd.

Cystadlaethau NFYFC

Yng nghystadlaethau cenedlaethol Cymru a Lloegr ym mis Gorffennaf teithiodd nifer o aelodau'r sir i Stafford i gynrychioli Cymru, llongyfarchiadau calonnog i GFFI Llangeitho ar ddod yn 5ed yn y Ciwb, i'r tîm Siarad Cyhoeddus dan 21 oed ar ddod yn 3ydd ac i glybiau Pontsian a Bro'r Dderi ar ddod yn 3ydd yn yr Ultimate Frisbee yn y cystadlaethau chwaraeon.

Sioe Frenhinol Cymru

Roedd adeilad y CFFI a'r Pentref Ieuencid yn ferw gwyllt yn ystod wythnos y sioe, llongyfarchiadau enfawr i aelodau'r sir hon am gipio Tlws Her U.C.A am y Sir buddugol ar ddiwedd yr wythnos. Dyma'r rhai a ddaeth i'r brig:

Arddangosfa Byw Crefftau Gwledig - Lowri Jones a Meilir Ioan, Caerwedros 1af; Crefft Anrheg Geltaidd - Carwyn Davies, Llanwenog 1af; Dawnsio - CFFI Mydroilyn 1af; Barnu Cobiau Adran D - Lowri Reed, Pennant 1af; Ras Siarlot Celtaidd - CFFI Bro'r Dderi 1af; Tîm Tynnu'r Gelyn Bechgyn - Llanwenog 1af; Tîm Tynnu'r Gelyn Bechgyn a Merched - Llanwenog a Pontsian 2il; Tîm Barnu Gwartheg Duon Cymreig - 2il; Barnu Gwartheg Duon Cymreig Dan 21 - Dyfrig Williams, Llangwryfon - 2il; Barnu Gwartheg Duon Cymreig Dan 16 - Eiry Williams, Llangwryfon - 2il; Mae Gan Celtwyr Dalent - CFFI Felinfach 2il; Ar y Newyddion - CFFI Llanwenog 2il; Coedwigaeth Emyr a Gareth Harries, Llanddeiniol - 2il; Barnu Cobiau Adran D Dan 21 - Esyllt Jones, Pennant - 3ydd; Tîm Barnu Cobiau Adran D - 3ydd. Barnu Defaid Torddu Dan 21 - Morys Ioan, Caerwedros 3ydd.

Sialens Cadeirydd y Sir - Emyr Lloyd

Mae Cadeirydd y Sir wedi gosod sialens a hanner iddo'i hun sef rhwyfo arfordir Sir Ceredigion o Aberteifi i Ynys Las. Mi fydd yn codi arian tuag at elusen ymchwil Cancr. Pob dymuniad da iti Emyr!

Teithiau Tramor

Croeso adref i Menna Williams a fu ym Montana, Betsan Hughes a fu yng Nghansas ac i Mererid Jones, Esyllt Ellis-Jones a Ffion Lewis a deithiodd fel rhan o dîm Cymru i'r Rali Ewropeaidd yn Iwerddon. Fe gafodd y merched amser ffantastig. Os oes diddordeb gyda chi fynd ar daith gyda'r CFFI eleni, ewch ar wefan CFFI Cymru a dewiswch un neu ddwy daith, llenwi'r ffurflen ymgeisio a dod i Lanelwedd ar y 3ydd o Dachwedd am gyfweiliad anffurfiol. Ewch amdani eleni!

Digwyddiadau

Medi 11eg - Hyfforddiant Barnu Stoc Wyn Tew
Medi 18fed - Pwyllgor Blynnyddol y Sir Neuadd Dihewydd
Medi 25ain - Hyfforddiant Barnu Stoc Biff Tew
Medi 28ain - Diwrnod Maes y Sir - IBERS, Aberystwyth
Hydref 4-6ed - CCB Cymru - Caerdydd
Hydref 7fed - Noson ar gyfer aelodau 16 oed ac iau

Ynghyd â'r uchod cafwyd llawer o joio dros yr haf gyda'r It's a Knockout i'r Aelodau dan 18 oed yng Nghêl Aeron, trip dros 18 oed i golffio ym Mhenrhos ac yna i'r Rasus Trotian yn Aberystwyth, Treialon Cŵn Defaid yn Sioe Talybont ac yng nghanol y cyfan cynnal Cyfarfodydd Blynnyddol y clybiau. Pob dymuniad da i bawb sydd wedi derbyn swydd o fewn eich clwb a llongyfarchiadau i'r cyn-swyddogion am eich gwaith caled yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Defaid o'r Ddinas

Mis nesaf mae Meinir Green a'r teulu yn croesawu diadell fychan o ddefaid Llanwenog o ganol Dinas Abertawe i Fferm Blaenplwyf Isaf, Llambed. Mae'r ddiadell yn perthyn i Fferm Gymunedol Abertawe, a leolir yn Fforestfach, ac y mae'r defaid yn dod ar eu 'gwyliau' bob blwyddyn at Meinir i gwrdd â'r hwrdd!

Mae'n rhyfedd i feddwl yng nghanol bwrlwm dinas fawr fel Abertawe fod yna ddefaid Llanwenog yn pori ond mae'r fferm tair cyfer a hanner wedi bod yn gartref i'r ddiadell ers 1995. Bydd yr ymweliad i Llambed yn gyfle i'r defaid gael ymlacio rhag prysurdeb bob dydd Fforestfach a'u bywydau fel 'selebs' y byd anifeiliaid' wedi cyhoeddusrwydd am y fferm â ddaeth yn sgil ymweliad y Tywysog Siarl â hwy ym mis Gorffennaf. Cedwir defaid Llanwenog ar y fferm ohwerydd eu bod yn ddefaid caled gyda natur tawel. Mae hyn yn hollbwysig gan taw gwirfoddolwyr a phlant ysgol sy'n ymdrin â'r defaid. Mae cadw'r brid Llanwenog hefyd yn cwrdd ag amcanion y fferm i gefnogi bridiau prin cynhenid, ac y maent yn elwa o'r cysylltiadau sydd ganddynt â Meinir Green, sy'n fridiwr adnabyddus. Yn ogystal â'r defaid Llanwenog, mae'r fferm yn cadw moch Cymreig, ieir, hwyaid, gwydd, ieir Gini a gwynyn.

Mae'r fferm yn le all bobl o bob oedran gymeryd rhan i dyfu planhigion a llysiau, helpu i warchod yr anifeiliaid a darganfod mwy am eu hamgylchedd. Mae hefyd yn gyswllt pwysig i gymunedau dinesig â tharddiad eu bwyd a chyfle i dreulio amser yn yr awyr agored. Mae'r fferm yn cynnig nifer o wahanol weithgareddau i'r gymuned leol. Mae yna raglen lawn ar gyfer gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn y gweithgareddau tu allan neu i goginio yn y caffi sydd ar y safle. Mae yna hefyd rhaglen ar gyfer yr ieuencid, sy'n cynnig cyfleuon i ddatblygu sgiliau a magu hyder ar gyfer y dyfodol.

Elusen yw Fferm Gymunedol Abertawe sy'n ddibynnol ar wirfoddolwyr, cefnogwyr ac arian a dderyniwyd trwy wahanol grantiau. Mae'r Fferm wedi bod yn llwyddiannus iawn i sicrhau arian loteri yn y blynnyddoedd diwethaf ac eleni llwyddodd i sicrhau grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Cefnogodd Cyfoeth Naturiol Cymru brosiect ar y fferm i ddatblygu adnoddau addysgiadol i'w ddarparu i'r ysgolion sy'n ymweld â'r fferm, yn ogystal â sefydlu ystafell ddoosbarth bwrrpasol. Mae'r prosiect addysg yn canolbwyntio ar ddysgu am y gwahanol gynefinoedd a bywyd gwyllt sy'n byw ar y fferm.

Un o brif amcanion y cynlluniau gwirfoddoli yw bod gwirfoddolwyr yn ennill cyfle i ddatblygu a meithrin sgiliau newydd. Fel rhan o'r gwaith diweddar i greu ystafell ddoosbarth ar y fferm, roedd yn amod wrth osod y gwaith i dendro fod y saer yn gweithio gyda'r tîm o wirfoddolwyr i gwblhau'r gwaith ac yn trosglwyddo gwybodaeth atynt. Roedd hyn yn ffordd dda o sicrhau fod y buddsoddiad ariannol i'r fferm nid yn unig yn rhoi'r cyfle iddyn nhw ddatblygu offer cyfalaf ond ei fod hefyd yn buddsoddi yn sgiliau'r gwirfoddolwyr i allu greu adnoddau pellach ar y fferm ac yn gwella eu cyfleoedd ar gyfer byd gwaith.

Mae'r ynys fechan yma o gefn gwlad yng nghanol dinas Abertawe gwerth ei gweld ac y mae'n galonogol i feddwl fod plant y ddinas yn cael blas ar drafod anifeiliaid a tyfu bwyd eu hunain. Mae'r fferm ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn rhwng 10.00 a 16.00. Lleolir y fferm wrth ymyl yr hen ffatri 'Walker's Crisps' yn Fforestfach. Mae'r caffi yn darparu bwyd lleol yn ogystal â nwyddau a gynhyrchwyd ar y fferm. Cynhelir nifer o wahanol ddigwyddiadau agored ar y fferm, megis dyddiau crefft neu dysgu sgiliau garddio. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01792 578384 neu ewch i'r wefan - www.swanseacommunityfarm.org.uk

Taith Gerdded

Ar Ddydd Sadwrn 21 Medi 2013 am 10.30am mi fydd taith dywys hamddenol o tua dwy awr yn gadael o Amgueddfa Wlân Cymru, o amgylch adeiladau hanesyddol Dre-fach Felindre a Chwmhiraeth. Bydd y daith yn mynd heibio i adeiladau a chwaraeodd ran bwysig yn natblygiad hanesyddol y diwydiant gwlân.

Mae'r daith am ddim a chroeso i bawb ddod i ddysgu am ein treftadaeth. Mae croeso i chi gysylltu â'r Amgueddfa am wybodaeth bellach neu i gadw'ch lle - 029 2057 3070 www.amgueddfacymru.ac.uk/gwlan Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter a Facebook.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Mae'r aelodau wedi bod ar ddwy daith ers i chi ddarllen eich rhifyn diwethaf o 'Clonc'.

Troi ein golygon am Sir Benfro wnaethom ym mis Gorffennaf, ar un o ddiwrnodau twymaf yr haf, gan ymweld â Chastell Picton, a'r gerddi hyfryd oddi amgylch. Braf oedd cael cwmni sawl un nad oedd wedi bod ar ein teithiau ers tro, - yn wir roedd angen ein rhannu yn ddau grŵp i fynd mewn i'r castell, fel bod pawb yn clywed hanes y lle dros y canrifoedd yn cael ei roi gan y tywyswyr. Sbel fach i fwynhau yn Ninbych-y-Pysgod cyn cychwyn am Gaerfyrddin, a chael swper blasus yn y Boar's Head.

Newidiodd y tywydd erbyn trip mis Awst, ac wrth i ni fynd heibio Tro'r Gwew ar y Mynydd Du, daeth y niwl i lawr gan amharu ar y golygfeydd godidog o gwmpas. Arhoswyd am 'baned yng Nghanolfan y Mynydd Du ym Mrynaman, cyn symud ymlaen i Aberdulais ger Castell Nedd. Olion hen weithfeydd tun sydd yno, ac fe'n tywyswyd o gwmpas a chael hanes y gweithlu fel y bu yn ei anterth. Y rhod ddŵr yn dal i droi gan greu trydan i'r Grid Cenedlaethol, - yr olwyn fwyaf o'i math sy'n dal i weithio yn Ewrop gyfan. Mwynhawyd byr-bryd hyfryd yno cyn ymadael â'r safle, gan droi yn ôl am Abertawe, i Ganolfan Casgliadau'r Amgueddfa nepell o Stadiwm y Liberty. Roedd y dynion wrth eu bodd ynghanol yr hen dractorau, beiciau modur, dyrnwr, badau achub i enwi ychydig, oedd yn cael eu cadw yma mewn rhan o hen waith Copor Abertawe. (Gwnaeth y gwragedd ddim cwyno chwaith !)

Awyr y môr yn Ystumllwyniarth ddiwedd y prynhawn, cyn teithio i Bontlliwl am bryd blasus unwaith yn rhagor cyn troi am adre. Cyfeiriodd Dilwen George, y Cadeirydd ein bod yn gweld eisiau sawl un y diwrnod hwnnw, oherwydd anhwylder, a dymunodd wellhad llŵyr iddynt i gyd.

Bydd ein trip olaf eleni ar ddydd Mercher, yr 11eg o fis Medi. Cyfle i ymweld ag Eglwys y Carcharorion yn Henllan, a chael cwmni Mr Jon Meirion Jones i roi'r hanes gwerthfawr i ni. Ymlaen wedyn i'r Amgueddfa Wlân, ac yna i Aberteifi. Enwau i Yvonne 480590.

Capeli Bethel a Brynteg

Mae'n draddodiad ers nifer o flynyddoedd i aelodau'r pum capel o dan weinidogaeth Y Parch Ddr. Rheinallt Davies fynd ar bererindod ar y Sul cyntaf o fis Gorffennaf. Cofio am Y Parch Howel Davies oeddem eleni, felly teithio i Woodstock ger Hwlfordd yn sir Benfro a wnaethom i gynnal gwasanaeth yn y Capel a godwyd

iddo yn 1755. Bu aelodau'r pum capel yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth, yn dilyn hanes y gŵr hwn a fu'n guraid i'r Parch. Gruffydd Jones, Llanddowror, ac er iddo bregethu drwy Gymru gyfan, yn sir Benfro y treuliodd blynyddoedd olaf ei oes. Gweinidog presennol y capel yw Wiliam Owen, B.D.; M.Phil., mab y Parchedig a Mrs Geraint Owen a fu'n Weinidog gyda'r Bedyddwyr yng nghylch Llambled yn y pum degau.

Treuliwyd y prynhawn yn mwynhau'r heulwen yn Saundersfoot, cyn aros yn Nantyllyn, Clunderwen am swper. Diolchwyd yn gynnes i Haulwen Lewis, Pencader am drefnu'r diwrnod ar ei hyd gan Irene Jones, Llambled, un o'r ffrindiau ffyddlon sy'n ymuno â ni ar ein tripiâu.

Eglwys Santes Gwenog

Yn ystod yr Haf bu nifer o ymwelwyr yn ymweld â'r Eglwys, rhai ohonynt yn olrhain hanes teuluoedd ac eraill â diddordeb mewn hanes adeilad hynafol. Yn ystod Misoedd Awst a Medi bu dau ddigwyddiad hapus yn yr Eglwys. Bedyddiwyd Alaw Medi, merch fach Nia a Pete, Vale of Cledlyn ac hanner chwaer i Jac a Tomos. Pob bendith ar y teulu bach. Ym Mis Medi bydd Matthew o Lamed a Charlotte Mellor, merch Mr a Mrs Alan Mellor, Rhiwsion Isaf, yn priodi. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau.

Cafwyd Helfa Drysor ym Mis Gorffennaf a drefnwyd gan Peter a Caroline Davies. Gorffennwyd yr helfa yn nhafarn Gorsgoch. Diolch i Geraint ac Eiddwen Hatcher am eu croeso, a mwynhawyd pryd o fwyd blasus iawn. Wedi cyfri'r marciau yn ofalus bu dau gwpwl yn agos iawn ar y brig gydag ond un marc rhyngddynt. Hefin a Jackie fydd yn trefnu'r Helfa Drysor y flwyddyn nesaf. Diolch i Peter a Caroline am drefnu noson mor arbennig.

Bydd Isobel, Sioned Fflur, Wyn, Osian, Jac a Ben yn dechrau yn Ysgol Gyfun Bro Pedr ym Mis Medi. Dymunwn bob hwyl iddynt.

Da yw deall fod ein cyn ficer, Y Parch Bill Fillery yn gwella'n foddhaol wedi iddo ddioddef anaf poenus i'w goes. 'Gan byyll o hyn allan ficer!

Llongyfarchiadau i Siwan Davies, Llys Deri ar ennill Cadair Eisteddfod Rhys James, Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan, i rai dan 25 oed dros Wyl y Banc, am ei cherdd ar y testun 'Pont'. Bydd noson Caws a Gwin yn yr Eglwys Fach ar Fedi y 27ain. Croeso cynnes i bawb ymuno yn yr hwyl.

Cofiwn am bawb sy'n anhwylyd gartref neu mewn ysbty. Cydymdeimlwn â rhai sydd wedi colli perthnasau yn ddiweddar a



Pencampwr y Gwartheg Bîff oedd tarw Charalois ifanc o eiddo Peter Howells, Ty cam, Llanwenog. Yn y llun hefyd mai Steffan Hedd, ei fab.

dymunwn longyfarch ein pobl ifanc ar eu llwyddiant yn arholiadau TGAU a Lefel A. Pob lwc i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau.

Bydd Kevin Thomas, mab Beryl Lewin, Harlech, Drefach yn mynd allan i Afganistan ym Mis Medi i fod yn bennaeth ar wasanaethau cyfathrebu NATO â'r brodorion. Mae Kevin yn Uwch Swyddog yn yr Awyrlu. Dymunwn yn dda iddo.

Sioeau'r Haf

Daeth llwyddiant mawr i deuluoedd Gwarcoed Einon a Tycam yn y Sioe Frenhinol a'r sioeau lleol gan sicrhau nifer o wobrau. Da iawn chi.

18 oed

Dathlodd Angharad Evans, Murmur y Nant ei phen-blwydd yn 18 oed ar ddechrau mis Awst.

Piano

Llongyfarchiadau i Hafwen Davies, Fronheulog ar basio Arholiad Gradd 1 Theori gyda anrhydedd ac hefyd Gradd 2 Piano gyda merit. Da iawn ti.

Priodas Dda

Pob dymuniad da i Rhydian Jones, Meysydd ar achlysur ei briodas â Hayley lan ym Mangor ar ddechrau mis Awst.

Hefyd i Meinir Jones, Pwyllybilwg ac Andrew Davies o Lanwnnen ar eu priodas hwythau yng Nhapel Drefach yn ystod mis Awst.

Ar wellhad

Gobeithio fod Daniel Evans, Tandderi yn teimlo'n well ar ôl ei driniaeth yn ddiweddar.

Ar y teledu

Yn ystod mis Awst gwelwyd Hafwen Davies, Fronheulog ar raglen teledu '100 o blant' gyda Catrin, Eilir a Jano Evans, Henbant, Talgarreg sef perthnasau agos iddi. Enillwyd gwyliau i Sbaen. Mwynhewch y gwyliau!

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Gary Howells [gynt o Tycam] ar ei ddyweddïad â Meinir Jones o Gapel Isaac. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Cynghrair Ward Llanwenog a'r Cyffiniau

Dros yr haf, bu aelodau'r pwyllgor yn brysur yn casglu enwau a manylion cyswllt gweithwyr a busnesau lleol, er mwyn creu calendr yn llawn gwybodaeth defnyddiol ar gyfer yr ardal. Mae'r calendr yn cael ei ddylunio ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei ddosbarthu mor helaeth a phosibl mewn gwahanol ddulliau i gartrefi'r ardal a thu hwnt. Os ydych yn rhedeg busnes yn y Ward, ac os oes diddordeb gennych i fod yn rhan o'r rhestr yma, cysylltwch â mi ar yr e-bost isod.

Bu Nans Davies, cadeirydd y Gynghrair mewn cyfarfod yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol, yn trafod ac yn rhannu syniadau gyda chynghreiriau eraill o Gymru. Cyfarfod buddiol, lle cafwyd nifer o syniadau newydd.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Fawrth y 10fed o Fedi am 7.30 yng Nghewn Hafod, Gorsgoch. Mae croeso cynnes i bawb, ac os oes mater yn eich poeni neu yn deilwng o drafodaeth, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni.

enfyshatcher@hotmail.co.uk

Drefach a Llanwenog

Tynnu'r Gelyn

Llongyfarchiadau i dîm Tynnu'r Gelyn CFFI Llanwenog ar ennill cystadleuaeth Tynnu'r Gelyn yn y Sioe Frenhinol.

C.Ff.I Llanwenog

Cynhaliwyd ein barbeciw blynyddol yng Nghefnhafof, Gorsgoch, cafwyd noson o sbort a chymdeithasu a diolch i Geraint ac Eiddwen am y croeso unwaith eto. Braf oedd gweld cynifer o aelodau'r clwb yn cynrychioli C.Ff.I Ceredigion yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd. Ar y dydd Llun, cystadleuaeth ar y newyddion oedd hi gyda Cerys Lloyd, Luned Mair a Meleri Davies yn cipio'r ail wobwr, da iawn ferched! Dydd Mawrth gwelwyd Enfys a Gethin Hatcher yn coginio, roedd y pryd yn edrych yn flasus iawn a chipiodd y ddau y chweched wobwr. Ar ddydd Mercher, cystadleuaeth y crefft oedd yn cymryd lle ym mhafiliwn y C.Ff.I. Carwyn Davies oedd yn cynrychioli Ceredigion gyda'i lwygaru Geltaidd. Daeth llwyddiant i'w ran pan gipiodd y wobwr gyntaf, llongyfarchiadau mawr iddo! Ar ddiwedd cystadleuaeth yr aelodau sef crefft, coginio ar blodau, cipiodd Ceredigion yr ail wobwr, gyda tri o aelodau'r clwb sef Enfys, Gethin a Carwyn wedi cystadlu.

Ar yr un diwrnod, tro bechgyn Llanwenog oedd cystadlu yng nghystadleuaeth tynnu'r gelyn. Cafwyd prynhawn o gystadlu brŵd yng nghanol yr haul crasboeth. Ar ddiwedd prynhawn caled o dynnu daeth y bechgyn i'r brig ac ennill y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr iddynt! Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol yn Ysgol Llanwenog. Rhaid oedd ffarwelio â swyddogion 2012 - 2013 a hoffai'r aelodau ddiolch iddynt am eu holl waith yn ystod y flwyddyn. Dyma'r swyddogion newydd a gafodd eu hethol: Llywydd - Pugh Jones, Cadeiryddes - Cerys Lloyd, Is-Gadeirydd - Gethin Hatcher, Ysgrifenyddes - Menna Williams, Is-Ysgrifenyddes - Enfys Hatcher, Trysorydd - Carwyn Davies, Is-Drysorydd - Sioned Davies, Ysgrifenyddes Cofnodion - Sioned Fflur Evans, Ysgrifenyddion Rhaglen - Lauren a Sophie Jones a Gwawr Hatcher, Swyddog y Wasg - Meinir Davies. Cynhaliwyd Sioe Gorsgoch a C.Ff.I Llanwenog ar y 17eg o Awst ar gaeau Glwydwrn. Bu'r aelodau'n brysur yn trefnu, stiwardio a chystadlu'n y sioe. Cafwyd sioe lwyddiannus iawn. Mynychodd mwyafrif o swyddogion ac arweinyddion y clwb hyfforddiant a oedd wedi'i drefnu gan C.Ff.I

Llanllwni



Aelodau Tynnu Rhaff C.Ff.I. Llanllwni gyda'u noddwyr hael yn y ddau lun. Mae'r clwb am ddiolch yn fawr i Gerwyn ac Anwen Thomas, Crossroads am noddi'r crysau ac i John ac Ann Jones, Talardd am noddi esgidiau'r bechgyn.



Sarn Helen



John Collier o Westbury Harriers enillodd ras hwyl Felin Fach mewn 32:27, 2il Gethin Holland Aberystwyth AC 33:29, 3ydd a 1af d40 Glyn Price Sarn Helen 34:01, 2il d 40 Jamie Biggs 35:04, 3ydd d40 Michael Davies Sarn Helen 35 :19. 1af d50 Laurence Worth Pembrokeshire Harriers 38:16, 2il d50 Calvin Williams Sarn Helen 39:28, a 3ydd d50 Paul McDermott Sarn Helen 40 :13. Dee Jolly, Sarn Helen enillodd ras y menwyd mewn 38:35, 2il Elizabeth Tremlett Trots 39:26, 3ydd Bethan Williams 42:18, 1af m35 Catherine Bleasdale Trots 42 :20, 2il Eleri Rivers Sarn Helen 45:32. 3ydd m35 Jill Willcox 47:58, 1af m45 Helen Willoughby Sarn Helen 43:09, 2il m45 Eunice Carter Aberystwyth AC 51 :31. Sarn Helen dynion aeth â'r wobwr tîm, Glyn Price, Steven Holmes, Michael Davies and Tim Jones.

Chwech deg o redwyr yn cystadlu yn ras 800 medr i blant dan wyth oed, 1af Rhys Thomas Williams Bro Pedr 3:18, 2il Deio Ifan Llandysul 3:30, 3ydd Daniel Legg Bro Pedr 3:37. Seren James enillodd ras y merched 3:21, 2il Mali Fflur Jones Sarn Helen 3:32, 3ydd Catrin Lewes Bro Pedr 3:38. Ras 1500 medr 1af Llywelyn James Sarn Helen 6:11, 2il Daniel Jones Sarn Helen 6:14, 3ydd Harry Worth Pembrokeshire Harriers 6:17, 1af ras merched Becca Ann Jones Sarn Helen 7:12, 2il Lowri Fflur Davies Sarn Helen 7:49, 3ydd Gwennan Rowcliffe Sarn Helen 8:02. 3000 medr 1af Llyr Ap Einion Aberystwyth AC 11:12, 2il Tomos Evans Penweddig 11:21, 3ydd Aled Sion Jones Aberystwyth AC 11:28, a Ceris Hicks Sarn Helen yn ennill ras y merched mewn 16:14.

Hanner marathon Malvern Tim Jones yn groffen mewn 1:25:30. Simon Hall 1:26:47, Dee Jolly 1:34:21 1af menywod agored , a Dawn Kenwright 1:42:05 1af menywod 45.

Ddiwedd mis Mehefin roedd ras rhyngwladol yr Wyddfa, Dylan Lewis oedd yn gyntaf nôl i'r clwb mewn 1:28:02, Simon Hall 1:34:09, Gethin Jones 1:50:34, Carwyn Thomas 1:50:36, Aneurin James 1:56:15, Terry Jones 2:03:46 a Gareth Jones 2:16:10, hefyd roedd ras i'r plant gyda Llywelyn James yn ennill y ras filltir dan ddeg oed, ail Daniel Jones a hefyd cystadlodd Dafydd Jones. Becca Ann Jones enillodd ras 1.5 o filltiroedd i ferched dan 12 oed, a Naomi Howell hefyd yn groffen y ras, a Mali Fflur Jones a Seren James yn gydradd trydydd yn y ras dan ddeg oed.

Ar ddiwrnod twyma'r flwyddyn roedd ras dau ddiwrnod Pen y Fan a Fan y Big ar Fryniau Brecheiniog. Daneil Hooper yn gorffen Pen y Fan mewn 41: 31 a Caryl Davies mewn 1:06:51, a dydd Sul bu Glyn Price yn rhedeg Fan Y Big mewn 1:27:23.

Dawn Kenwright oedd y chweched ddynes nôl ac yn ennill ei chategori menywod 55 yn hanner marathon Dinbych y Pysgod mewn awr 50 munud, ac yn 7fed ac yn gyntaf yn y categori menywod 55 yn ras 10K Dinbych y Pysgod mewn 46 munud 02 eiliad.

Nos Wener oedd ras Myddfai, ac yn cystadlu dan 11ac yn ennill y ras oedd Llywelyn James mewn 15 munud a Seren James yn bumed 19 munud 20 eiliad. Ras pump milltir Helen Willoughby 43 munud, Katherine Axten 52:05, ac yn ras yr wyth filltir, Tim Jones yn ei ennill mewn 53:15, 3ydd Simon Hall 54:31, 8fed ac yn gyntaf yn y categori menywod oedd Dee Jolly 58:35, 9fed Tony Hall 59:16, 15 Haydn Lloyd 67:25, 18 Mitchell Redwin 67:58, 20 Aneurin James 69:13, 21 Eleri Rivers 70:32, Gareth Jones 73:10.

Mae ras tywod Poppit yn gyfres o dair, a dyma'r canlyniadau gyda'u pwyntiau, Simon Hall 410, Kevin Regan 380, Tony Hill 367 ac yn ennill y gyfres dynion 50, Huw Price 338, Llewelyn Lloyd 284, Dylan Lewis 281, Haydn Lloyd 273, Payl McDermott 249, Calvin Williams 248, Aneurin James 243, Eleri Rivers 230, Nigel Davies 212, Mitchell Readwin 183, Steffan Jones 175, Carwyn Thomas 144, Timothy Jones 141, Katherine Axten 120, Katie McDermott 118, Dee Jolly 112, Helen Willoughby 89, Gareth Jones 69, Allan Watts 39, ac yn cystadlu yng nghyfres y plant oedd Naomi Howell, Becca Jones, Mali Jones, Cerys Hicks, Kurtis Davies, Thomas Willoughby, Daniel Willoughby, Daniel Jones, Dafydd Jones a Gwion Griffiths.

Dydd Sul roedd ras Tenovus 5K yn dechrau o ganolfan hamdden Llanbed, 2il Glyn Price, 3ydd Dylan Lewis, 4ydd Daniel Hooper, 5ed Simon Hall, 8fed Kevin Regan, 9fed Paul McDermott, 11 Huw Rowcliffe, 12 Dee Jolly, 13 Calvin Williams, 14 Huw Price, 15 Tony Hall, 22 Thomas Willoughby, 23 Michael Readwin, 26 Kaie McDermott, 28 Gareth Jones, 36 Allen Watts.

Gareth Payne yn cystadlu yn ei dreithlon cyntaf yng Nghrymch ac yn gorffen yn yr 2il safle, cyntaf nofis, ac ail vet, hefyd gorffennodd yn 10fed yn y Welsh Sportive 112 o filltiroedd yn sir Benfro. Bu Gwion Payne yn Llanfair ym Muallt yn cystadlu ar ei feic mynydd ac yn gorffen yn y trydydd safle i blant dan 12.

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Bu nifer o'n disgyblion ar amryw deithiau'n ddiweddar – blynyddoedd 1 a 2 i “Ar y bêl” yn Ffosyffin a'r Meithrin a Derbyn yn Fferm Folly.

Cafodd y disgyblion hŷn gyfle i fynd i Abertawe i weld sioe “Gruffalo's Child” a chael taith o gwmpas Stadiwm y Liberty. Diolch i bob aelod o staff a fu wrthi'n trefnu a gofalu am y plant ar y teithiau yma.

Bu disgyblion sy'n aelodau o'r Urdd, Adran ac Aelwyd yn coginio cacennau i'w gwerthu yn Ysgol Bro Pedr a chasglwyd £361.07 tuag at daith “Cerddwn Ymlaen.” Diolch i bawb a fu'n coginio ac a gefnogodd drwy brynu cacennau.

Bu timau o ferched a bechgyn yn cystadlu mewn twrnament yn Nhregaron gyda dau dîm o fechgyn yr ysgol yn cyrraedd y rownd derfynol a thîm A yn ennill a Thîm B yn dod yn ail. Diolch i Mrs Costello, Mr John a Mr Thomas am eu hyfforddi.

Gwnaeth Dewi Hobbs ddod yn ail yng nghystadleuaeth Aquathlon yr Urdd dros Gymru i fechgyn blwyddyn 6. Llongyfarchiadau mawr iddo. Bu Ruth Davies ac Iestyn Owens yn cynrychioli Dyfed mewn cystadleuaeth yn erbyn Gorllewin Morgannwg yn y naid uchel yn ddiweddar a Iestyn yn ennill a Ruth yn dod yn ail. Arbennig.

Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Mrs Margaret Jones sydd wedi bod yn dysgu yn Ysgol Ffynnonbedr a bellach Bro Pedr ers chwe mlynedd ar hugain. Diolchwn iddi am ei gwaith diflino a'i chyfraniad amhrisiadwy i'r ysgol dros y blynyddoedd.

Byddwn yn gweld eich heisiau yn fawr Margaret. Dymunwn yn dda hefyd i Catrin Pugh sydd yn ein gadael wedi tair mlynedd yn yr ysgol. Pob hwyl i ti Catrin yn y dyfodol a mwynha'r teithio. Estynnwn groeso cynnes i ddau aelod newydd o staff sef Mrs Amanda Jones a Mr Michael Lloyd Davies a gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

Pob hwyl i ddisgyblion blwyddyn 6 wrth iddynt symud i'r Campws Hŷn.

Llongyfarchiadau mawr i Mr Geraint Thomas ar gwblhau marathon yn ddiweddar ac am godi swm anrhydeddus o dros £1000 o bunnau i elusen LATCH.

Gwnaeth Mr Heulyn Roderick godi swm enfawr o £1500 wedi iddo yntau seiclo o amgylch Cymru ac Iwerddon. Arbennig. Rydym yn ffodus iawn i gael aelodau o staff sy'n heini iawn!!

Yng ngharnifal Llambled bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn llwyddiannus yn y mabolgampau ac yn y cystadlaethau gwisg ffansi. Llongyfrachiadau i fflôt yr ysgol

ar ddod yn ail a diolch i Anita a phawb a fu wrthi'n trefnu. Roedd y frenhines a'r morwynion a'r gweision hefyd yn edrych yn hyfryd.



Cipiodd Natalia Trybula gwpan Cyfeillgarwch yn rhoddedig gan Mr a Mrs H Jenkins i ddisgybl o flwyddyn 6 sydd wedi dangos parch a gofal at eraill.

Ysgol Bro Pedr - Hŷn

Gyda blwyddyn newydd yr ysgol yn dechrau ym mis Medi, cychwynodd ein Prif Swyddogion sef Dewi Uridge a Sian Elin Williams a'n dirprwy Brif Swyddogion, sef Aron Dafydd, Edward Bransden a Gwawr Hatcher eu swyddi newydd.

Gŵyl Cemeg Salters 2013: Ar Fehefin 5ed aeth Holly Kelly, George Greenfield, Jack Hulme ac Alpha Jones - criw o wyddonwyr ifanc o flwyddyn 8, i ŵyl cemeg Salters' ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cafodd y diwrnod ei rannu i ddwy gyfres o weithgareddau go wahanol. Yn y bore bu gorfod i'r tîm ddangos eu sgiliau cemeg ymarferol wrth geisio datrys dirgelwch llofruddiaeth. Cyd-weithiodd disgyblion yn arbennig a llwyddo i ddatrys y dirgelwch. Ar ôl cinio ceisiodd yr aelodau greu argraff drwy ddangos eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth ynghylch y raddfa a niwtralau. Roedd sawl ysgol yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth ac yn anffodus gadawodd ein tîm heb unrhyw wobrau, ond mae'r ysgol yn falch iawn o'u hymdrechion arbennig.

Cafwyd diwrnod AB|CH llwyddiannus iawn i flwyddyn 7 yn ddiweddar. Diolch i Morag, ein nyrs ysgol a Debbie, ei chydweithwraig, am eu harbenigedd a'u cymorth wrth iddynt addysgu'r disgyblion ynghylch addysg iechyd a'r newid yng nghorff plant a phobl ifanc.

Cerddorfa Chwe Sir a'r Band Offerynnau Chwyth: Cafodd Bethan Webb o flwyddyn 10 ei dewis fel aelod o'r gerddorfa chwe sir, a'r band offerynnau chwyth ym mis Gorffennaf. Bu'n ymarfer yn ddiwyd ar gwrws preswyl tri diwrnod ym Mhrifysgol Abertawe cyn perfformio



Wyn Davies 6ed dosbarth Ysgol Bro Pedr Llanbedr Pont Steffan, yn cyflwyno darn o'i waith Arholiad AS Celf i'r campws Iau sef Murlun Haearn o'r cawr Bendigeidfran allan o Stori Branwen sy'n cwmpasu arwyddair yr Ysgol – ‘A Fo Ben Bid Bont’.



Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol o flynyddoedd 8 a 10 am eu llwyddiannau yn ystod y gystadleuaeth STEM a drefnwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Cymru Aberystwyth. Bl.8: 1af: Harriet Roper, 2ail: Daniel Davies ac Elen Lewis. Clod arbennig: Sam Edwards a Rhys Jones. Bl.10: 1af: Gareth Jones, 2ail: Connie Daly. Clod arbennig: Gethin Davies.



Bu daearyddwyr Blwyddyn 10 yn ffodus i gael diwrnod sych i ymweld ag Aberaeron i ymgymryd â'u gwaith maes TGAU. Pwrpas y gwaith oedd ymchwilio i brosesau cludo a dyddodi arfordirol. Ar Draeth y De, buont yn mesur proffil y traeth ac yn cofnodi'r newidiadau yn natur y dyddodion wrth bellhau o'r môr. Wedyn ar Draeth y Gogledd, buont yn mesur uchder y dyddodion ar y naill ochr a'r llall o'r grwynau fel tystiolaeth o ddrifft y glannau. Cydweithiodd y grwpiau yn arbennig, gan gyflawni'r tasgau'n effeithlon. Roeddent yn llawn haeddu'u cinio o sglodion a hufen iâ cyn dychwelyd i'r ysgol.



Aled Dafis, athro Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Bro Pedr yn cyflwyno tlws y West and Wales Utilities i Dewi Urledge am ei gynllun mwyaf gwreiddiol yng nghystadleuaeth y Big Bang. Bydd yn mynd ymlaen i Birmingham nawr i gynrychioli Cymru yn hwyrach yn y flwyddyn.



Prif Swyddogion Ysgol Bro Pedr ar gyfer 2013-2014 - (Blaen) -Prif ferch - Sian Elin Williams; Prif Fachgen - Dewi Urledge, eu dirprwyion - Aron Dafydd, Edward Bransden a Gwawr Hatcher.

mewn neuadd grand yn Abertawe.

Sialens UKMT Iau Prifysgol Leeds: Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol o flwyddyn 8 am eu llwyddiannau yn ystod y gystadleuaeth UKMT Iau yn ddiweddar. Tystysgrif arian: Jack Hulme, Tystysgrif efydd: Zoe Jones, Briallt Williams, Gabriel Patterson, Francis Webb.

Y tymor yma cafodd Bl 9 y cyfle i ddatblygu eu sgiliau mentergarwch, pan ddaeth Emma Benger o Yrfa Cymru ac Arwyn Davies o Antur Teifi i mewn i redeg gweithdai a herio'r disgyblion i sefydlu busnes. Bu rhaid i'r cwmnïau wneud cyflwyniad i Arwyn Davies ac ar yr achlysur yma'r tîm sy'n mynd ymlaen i'r rownd nesaf ym Mharc y Scarlets ym mis Hydref bydd 'Fish on Ship', sef Caryl, Ffion, Jessie, Chloe, Robbie, Mathew a Cai. Pob lwc iddynt.

Mae myfyrwyr Bl 12 Busnes yn awr yn brysur yn paratoui ar gyfer ei gwaith cwrs A2, sef creu Cynllun Busnes. Er mwyn eu cynorthwyo, bu darlithwraig busnes o Goleg Llambled Dewi Sant - Sian Harries yn cyflwyno dwy ddarlith a fydd yn sicrhod fod yn fuddiol iddynt gyda'u paratoadau. Yn ystod y tymor, cynhaliwyd 'Diwrnod Mentergarwch' o dan arweiniad Liz James o BASE Wales. Bydd y gweithgareddau yn darparu tystiolaeth ar gyfer sgil 'Gweithio gydag Eraill' Lefel 2. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn meddwl am logo a slogan am gynnyrch o'u dewis - falle welwn ni rai ohonynt ar 'The Apprentice' rywbryd yn y dyfodol!

Bu disgyblion blwyddyn 12 i amrywiaeth o fusnesau a siopau ar brofiad gwaith yn ddiweddar. Hoffwn ddiolch i'r cyflogwyr am eu cymorth ac am ddarparu lleoliadau profiad gwaith.



I ddathlu 10 mlynedd ers agor 'Canolfan y Bont' Ysgol Bro Pedr dadorchuddiwyd yd mosaic a oedd wedi ei gynllunio gyda'r disgyblion. Roedd y mosaic wedi ei wneud gan Meleri Mair Thomas ynghyd â chymorth disgyblion Bl. 7 ac 8. Yn y llun mae Clare Taylor, Pennaeth y Ganolfan; Cyng Ifor Williams; Disgyblion 7 ac 8 - Paloma Kalydy; Page Davies; Llio Jones a Mared Jones; Meleri Mair Thomas, Athrawes Gelf; David Williams, Pennaeth ac Alison Boshier.

Bu disgyblion o flwyddyn 9 ar daith i Ffrainc a Gwlad Belg yn Mis Mehefin i weld amgueddfeydd a beddau milwyr y rhyfel byd cyntaf. Cafodd y criw amser da, wedi gweld a dysgu llawer am gyfnod o ymladd erchyll.

Llongyfarchiadau mawr i Joshua Hemming, sydd wedi cwblhau ei raglen ASDAN 'Sialens Pontio' yn ddiweddar. Da iawn ti Josh!



Gwobrwywyd y disgyblion canlynol o flwyddyn 12 o Ysgol Bro Pedr fel Arweinwyr Ieuentic (gan ennill 3 cerdyn ar Lefel Dau - OCR) fel rhan o'u gwaith a'u gweithgareddau yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn. Gwobrwywyd hwy hefyd yn wirfoddolwyr Mileniwm yr Urdd am waith gwirfoddol (50 awr i 100 awr).

O'r chwith - Ianto Jones; Llion Thomas; Gwawr Hatcher; Meleri Davies; Steffan Roberts; Sian Elin Williams; Tomos Williams; Joe Jenkins; Dewi Urledge; Ceri Jenkins; Sophie Jones; Lauren Jones; Aron Dafydd ac Elen Lewis.



Meirion Thomas a Jessica Charles-Davies yn gosod torch wrth ymyl bedd Hedd Wyn.

Llanfair Clydogau

Oed yr Addewid



Llongyfarchiadau cynnes i Arwyn Davies, Pentre ar ei benblwydd yn 70 ar Orffennaf 20fed. Ar y noson honno cafwyd parti arbennig yn fferm Pentre, gyda tua cant a hanner o bobl yn bresennol, perthnasau a ffrindiau o bell ac agos. Yn wir roedd yn achlysur i'w gofio gyda phawb yn mwynhau yn gwledda, sgwrsio a dawnsio i fand y 'Free Beer'. Roedd yn noswaith braf o Haf ac aeth y dathlu ymlaen hyd oriau man y bore. Diolch i Eleri a'r teulu am y gwahoddiad ac am yr holl bethau oedd wedi eu paratoi ar ein cyfer. Edrychwn ymlaen at y dathliad nesaf.

Eglwys Santes Fair

Ar y pumed Sul ym mis Gorffennaf daeth aelodau eglwysi Llanfair a Chellan at ei gilydd mewn gwasanaeth am y tro cyntaf o dan y drefn newydd. Cafwyd gwasanaeth bendithiol gyda mwy nag arfer wedi dod, gyda chefnogaeth aelodau Capel Mair yn ei plith. Ers Gorffennaf 11eg 2013 mae Parch Dafydd Jones, sydd ar hyn o bryd yn guraid cynorthwyo ym mlwyf Llanddewi Brefi a Llangeitho, yn dod yn offeiriad a gofal swyddogol o'r grŵp hynny, a bydd plwyfi Cellan a Llanfair yn dod yn uned ar wahân o dan ofal swyddogol y deon gwlad, Canon Phillip Wyn Davies, ficer Tregaron. Mae Canon Davies wedi dirprwyo cyfrifoldeb bugeiliol Cellan a Llanfair i'r Parch Bill Fillery, ficer sydd wedi ymddeol sy'n byw yn Llanbed.

Kilomanjaro co ni'n dod

Bu Neuadd Llanfair Clydogau yn leoliad i un o ddigwyddiadau elusen mwyaf llwyddiannus a gafodd ei gynnal yma yn ein pentref bach ni erioed. Y digwyddiad oedd codi arian i Ganolfan Cancar Velindre trwy roi cyfle i bedwar o wirfoddolwyr brwdfrydig i godi arian trwy gerdded i fyny Mynydd Kilimanjaro yn Affriga. Y gwirfoddolwyr yw Iolo Williams, Shan Cothi, Cheryl Jones a Cath Ayres. Trefnwyd yr holl noson gan Ann Davies, Fferm Olmarch gyda help i baratoi y bwyd gan Eleri Davies, Margaret Davies Jones ac Aerwen Griffiths. Roedd y neuadd a'r byrddau yn edrych fel y Ritz, gyda dros 90 o bobol wedi mwynhau cinio o bum cwrs arbennig o flasus. Diolch i aelodau Clwb Ffermwyr Ifainc lleol am weini mor arbennig a chefnogi'r achos. Cawsom ein diddanu gan



Shan, Cath a Cheryl ac hefyd gan Elliw Dafydd yn cyflwyno cân yn llawn symud ac egni, seren y dyfodol yn sicr.

Diolch i Andrew Morgan am fod yn arwerthwr mor neilltuol, nid dim ond gwerthu ond ein diddanu hefyd, a chloi y noson mor llwyddiannus. Mi wnaeth yr arwerthiant yn unig bron £4,000 a'r noson i gyd yn codi £7,500. Mae Cheryl, Shan a Cath am ddymuno diolch i bawb o waelod calon am eu hymdrech, eu cefnogaeth a'u rhoddion hael.

Picnic y pentref a Ras Hwyaidd

Siomedig iawn oedd y tywydd a phawb wedi edrych ymlaen at gael

pinic ar lan yr afon Teifi. Er gwaethaf y glaw cafodd ei gynnal ond bu'n rhaid ei gael y tu mewn yn y neuadd. Cynhaliwyd y ras hwyaidd hefyd wedi ei threfnu gan aelodau pwyllgor y pentref. Yr enillwyr oedd: Rhif 84 Tony Tŷ Coch : Yn ail Rhif 34 Don Spooner: Yn drydydd Rhif 10 Sue Davies: Yn bedwerydd Rhif 297 Claire Tŷ Gof. Diolch i bawb a gyfrannodd ac yn enwedig i Linda a Tony.

Rhedeg

Llongyfarchiadau i Ffion Quan, Sŵn yr Afon am redeg mor dda ym Mhencampwriaeth Cymru ar Orffennaf 6ed yng Nghaerdydd. Cafodd y pumed safle yn y 300m a'r bedwerydd yn yr 800m.

Pob dymuniad da iddi yn y dyfodol a llawer mwy o lwyddiant.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Sue a Brian, Tancoed ar ddathliad eu priodas arian yn ddiweddar. Cafodd ffrindiau a pherthnasau y cyfle i ddathlu mewn parti a barbicw a gynhaliwyd yn eu cartref.

Pen-blwydd pwysig

Llongyfarchiadau cynnes i Lyn Thomas, Awelon, Heol Llanfair ar gyrraedd ei hanner cant ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 27. Pob hwyl yn y dathlu.

Clwb Hanes

Mae y grŵp hanes yn parhau i weithio ar hanes y Rhyfel Byd Cyntaf i baratoi erbyn dathlu y canmlwyddiant yn Awst 2014. Roedd rhai o ddynion y pentref wedi colli eu bywyd yn ystod y rhyfel yma a mae ymchwil yn cael ei wneud i benderfynu yn bendant sawl un.

Mae'r wybodaeth hyn yn anodd i'w darganfod gan nad oes cof golofn ryfel yn Llanfair. Ar hyn o bryd y maent wedi darganfod saith, mwy nag oedd neb yn y pentref yn meddwl. Mae dau blac i'w cael i gofio dau filwr a gollodd eu bywydau – un yng Nghapel Mair ac un yn Eglwys Santes Fair. Ar Awst 16eg aeth y grŵp ar drip i Aberhonddu i amgueddfa De Cymru a'r ffiniau i wneud rhagor o ymchwil am filwyr Cymreig.

Clwb Cant

Dyma ennillwyr yr Haf.

£20 Margaret Oothby, 68. £10 Dug Williams, 143. £10 Jonni Bell, 112. £10 Liz Mercer, 12. £5 Laura Wood, 8. £5 Gerwyn Morgan, 33. £5 Simon Packer, 50. £5 Jac Hockenhull, 77. £5 Dot Evans, 25. £5 Deina Hockenhull, 27.

Priodas

Ar ddydd Sadwrn Awst 24ain priododd Penny a Jonathan yn Eglwys Santes Fair.

Alltyblaca

18 oed

Ar ddechrau mis Medi dathlodd Siôn Lewis, 1 Bro Teifi ei ben-blwydd yn 18 oed. Gobeithio dy fod wedi mwynhau dy ddiwrnod.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Sefydliad Prydening y Galon Cangen Llanybydder a Llambod

Noson Bingo

yng Nghlwb Rygbi Llanybydder

15 Hydref 2013 am 8 yh.

Diolch i'r **500** ohonoch â ymunodd â Chlwb CLONC am y flwyddyn 2013 - 2014. Mae eich cyfraniad yn cael ei werthfawrogi yn fawr iawn.

Cornel Chwaraeon



Dewi Hobbs o Ysgol Bro Pedr yn dod yn ail dros Gymru yn Aquathlon yr Urdd i fechgyn blwyddyn 6 a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i ti Dewi.



Bu Ruth a Iestyn o Ysgol Bro Pedr Llambled yn cynrychioli Dyfed yn erbyn Gorllewin Morgannwg mewn cystadleuaeth athletau yn ddiweddar. Daeth Ruth Davies yn ail yn y naid uchel i ferched a Iestyn Owens yn ennill y gystadleuaeth i fechgyn. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.



Gwilym Jenkins, Glynmeherin, Gorsgoch, a gwblhaodd yn llwyddiannus, ras y 10k yn Llundain.



Rhys Tom o Ysgol Bro Pedr yn ennill Ras Sarn Helen Felinfach dan 8.



Tîm A Ysgol Bro Pedr a oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth pêl-droed a drefnwyd gan Sêr Dewi Tregaron ar ran y W1. Llongyfarchiadau bois.



Beca Roberts o Ysgol Carreg Hirfaen, Cwmann yn derbyn y drydedd wobwr yng nghystadleuaeth Aquathlon yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr Beca.

Llongyfarchiadau mawr i Mr Heulyn Roderick ar gwblhau ei sialens ddiweddaraf - beicio o amgylch Cymru ac Iwerddon mewn pedwar diwrnod yn ddiweddar er budd Apêl Lewcemia Klaudia Kalinowska (Disgybl blwyddyn 4 ym Mro Pedr sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd) ac 'Apêl Ambiwlans Awyr Cymru'.

Mae Mr Roderick, sydd yn brofiadol iawn o ran trefnu a chymryd rhan mewn campau amrywiol i godi arian tuag at elusennau, am ddatgan ei werthfawrogiad i bawb wnaeth ei noddi i gwblhau'r sialens yma.

Roedd yn rhan o dîm o 7 o feicwyr profiadol a wnaeth feicio o Gaerfyrddin i Abergwaun ar y diwrnod cyntaf er mwyn dal y fferi i Iwerddon am 3 o'r gloch yn y bore.

Yna, wedi ychydig o gwsg, cychwyn ar ail ran y daith o Rosslare i Ddulun, 131 o filltiroedd a gwblhawyd mewn 8 awr mewn tywydd oer a rhewllyd.

Wedi croesi o Ddilyn i Gaergybi a brwydro yn erbyn gwyntoedd cryfion ar hyd Sir Fôn, teithiodd y criw i lawr i Ddolgellau.

Yna, ar y pedwerydd diwrnod, cwblhawyd 88 milltir olaf y daith o Ddolgellau i Gaerfyrddin a derbyniodd y criw groeso cynnes a



chymeradwyaeth gan deulu, ffrindiau a chefnogwyr.

Yn ôl Mr Roderick, "Roedd hi'n daith heriol oherwydd y pellter, y cyflymdra, yr oerfel a'r gwyntoedd cryfion yn ystod y pedwar diwrnod ynghyd â diffyg cwsg. Ond heblaw am ambell olwyn fflat a mân ddamweiniau, cwblhawyd y sialens yn llwyddiannus iawn a chafwyd llawer iawn o hwyl a thynnu coes wrth wneud hynny!"



CROESO CYNNES YN Y BRIF-DDINAS I CHWARAEWYR RYGBI A CEFNOGWYR

Symud i Gaerdydd?
Neu yn mynd i'r coleg yno ?

Mae yna groeso mawr i chi ymuno gyda ni - Clwb Rygbi Cymry Caerdydd (Adran 4 De Ddwyrain URC). Mae yna ail dîm hefyd, ac yn achlysurol trydydd tîm hefyd.

Mae'r timau yn chwarae ar Feysydd Llandaf bob pŵawn Sadwrn, ac mae'r Adran Iau yn cwrdd ar fore Sul.

Cewch mwy o wybodaeth am y Clwb, yr hwyl, y sbort a'r canu ar y Safle We

www.clwbrygbi.com

Digwyddiadau lleol



Ras siariot Clwb Bro'r Dderi a ddaeth yn gyntaf yn y Sioe Frenhinol. Roedd Jac Evans a Zoe Jones yn absennol o'r llun.



Llun o redwyr plant Sarn Helen a fu'n cystadlu yn Ras yr Wyddfa yn ystod yr haf.



Diwrnod perffaith i Jonsiaid Llambled -Gerwyn, Doris a Mary i brofi dŵr Tynant o Bethania yn Ffair Fwyd Llambled.



Mrs Ada Williams o Gartref Maes-y-felin, Drefach a ddathlodd ei phen-blwydd yn 102 oed ar Awst 25ain.

Cafwyd parti yng nghwmni ei theulu a'i ffrindiau agos. Dyma lun o Ada gyda'i chacen arbennig.

Nia Beca a Megan Mai Jones, Blaencwrt yn ennill y ddeuawd dan 12 oed (cyf) yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen.



Anrhydedd i Eileen a Twynog



Y Parchedig Ganon Eileen Davies, Gwndwn, Llanllwni yn derbyn Tystysgrif Cydymaith gan Will Taylor, Cadeirydd CARAS UK, (The Council for Awards of Royal Agricultural Societies) yn y Sioe Frenhinol fel cydnabyddiaeth o'i chyfraniad i 'Les Ffermwyr' ac hefyd Twynog Davies, Frondolau, Llambled yn derbyn tystysgrif Cymrawd y Sioe Frenhinol oddi wrth Will Taylor, Cadeirydd CARAS (The Council for Awards of Royal Agricultural Societies) yn ystod y seremoni wobrwyo fel cydnabyddiaeth am 'Gyngor i ddiwydiant arallgyfeirio Ffermydd.'

YSWIRIANT FUW

**Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai**



*Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol*

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n ddiwydwr ariannol, yng nghyd-deddfu cyfngyng yswiriant, o dan Rôl Cofrestru 309035

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

**Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwy!**

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp

Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Argau Dydd Llun heblaw Gŵyl y Banc

COMPASS OFFICE SUPPLIES

**Am eich holl
ddeunydd swyddfa**




Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod
☎ 01570 422893 / 422175

CANOLFAN ADDURNO

AA

**Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.**

Llyfrau Patriwm, Offer llaw a
phwercus, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth terri allweddol a
pleiniamau cynysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llambod Pont Steffan
01570 423156

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Ar ddiwedd y tymor daeth yr
arlunydd Rhiannon Roberts i'r
ysgol i drafod ei gwaith fel artist ac
i rannu ei thalent â'r plant. Cafodd
y plant gyfle i efelychu ei harddull
a chreu campweithiau eu hunain.
Roedd yn ddiwrnod buddiol iawn a
phawb wedi mwynhau mas draw!

Ymunodd disgyblion ysgolion
Llanwenog a Llanwnnen gyda ni
yng Nghwrtnewydd am ddiwrnod
o hwyl a sbri. Cafwyd chwaraeon
potes yn y bore a gêmâu amrywiol
yn y prynhawn. Roedd pawb
wedi joio ac roedd yn ddiwrnod
bendigedig.

I Hwlfordd yr aethon ni ar
ein trip ysgol blynyddol eleni.
“Creative Cafe” amdani yn y bore
lle cafodd y plant gyfle i beintio
crochenwaith a Merlin's Magic
yn y prynhawn lle cafwyd cyfle i
redeg, chwarae, bownsio a bwyta!
Diwrnod o fwynhâd.

Yn ystod y tymor hwn, cafodd y
plant hyfforddiant cymorth cyntaf
drwy gyfrwng “Heart Start”.
Fel cam ymhellach, cwblhaodd
disgyblion blwyddyn chwech
raglen ysgolion cynradd ar “
emergency life support”. Roedd
pob un o ddisgyblion yr ysgol wedi
cael diwrnod buddiol iawn ac wedi
dysgu tipyn. Diolch i Mrs Wendy
Davies am hyfforddi'r plant.

Er fod pawb yn disgwyl ymlaen
yn eiddgar i wyliau'r haf, eto i gyd
mae diwedd blwyddyn fel hyn yn
gallu bod yn gyfnod trist gan fod
yn rhaid ffarwelio â disgyblion
blwyddyn chwech. Eleni, Owen
Schröder, Elin Davies, Leah
Kersey, Macy Symonds, Madeleine
Smith ac Owain Jones sy'n ein
gadael a hoffai'r staff a gweddill
plant yr ysgol ddymuno'n dda
iddynt yn yr Ysgol Uwchradd.

Aethom i Gei Newydd i gymharu
ardal glan y môr ag ardal wledig
fel Cwrtnewydd. Ar ôl treulio peth
amser yn gweithio, braf oedd cael
bwyta'n cinio ger y traeth a threulio
gweddill y diwrnod yn adeiladu
cestyll tywod! Roedd yr haul yn
tywynnu arnom a phawb mewn
hwyliau da.

Cafodd blwyddyn chwech
Ysgolion Llanwnnen, Llanwenog
a Chwrtnewydd ddiwrnod o
hyfforddiant ar beryglon cyffuriau
ac alcohol. Cafwyd arweiniad a
chynghor gan arbenigwr ac roedd
yr hyn a ddysgwyd yn werthfawr
iawn.

Cynhaliwyd noson feicio
nodedig Cylch Meithrin Drefach
ar iard yr ysgol a braf oedd gweld y
plantos bach yn pedlo am y gorau!

Mynychodd blant blwyddyn
chwech a'u rhieni fore
rhagarweiniol yn Ysgol Bro Pedr
lle buont yn cwrdd â'u hathrawon
dosbarth, eu tywys o gwmpas yr
ysgol a chyfle i brofi'r cinio blasus!

Aeth plant Cyfnod Allweddol 2
i Ysgol Bro Pedr am ddiwrnod o
gystadlu brwd o Rownderi a Phêl
Droed Cylch Llambod! Roedd nifer
o ysgolion cylch Llambod wedi
dod at ei gilydd i gymryd rhan a
chyfle hefyd i gymdeithasu gyda
ffrindiau. Ar ôl bwrlwm y cystadlu,
daeth tîm Pêl Droed yr ysgol yn
gyntaf a'r tîm Rownderi yn ail.
Llongyfarchiadau i chi i gyd.

Aeth criw o blant blwyddyn
pump a chwech i wersylla yng
Nghaerdydd gyda'r Urdd. Cafwyd
amser arbennig yn ymweld â Phwll
Mawr, Techniquet, Canolfan
y Mileniwm a'r Senedd gan
gynnwys hwyl a sbri yn chwarae
bowldeg deg ac yn nofio yn y pwll
enfawr. Roedd y tywydd yn heulog
ac yn berffaith ar gyfer picnic
yn y bae a mynd ar y bws awyr
agored. Braf oedd cael cyfle arall
i gymysgu â phlant eraill yr ardal
a gwnaethpwyd llawer o ffrindiau
yn ystod y tridiau ac o ganlyniad
– dim llawer o gwsgr!

Cyfle i fwynhau'r haul yn
ogystal â chystadlu oedd hi eleni ar
ddiwrnod mabolgampau'r pentref.
Roedd yr haul yn tywynnu'n braf a
phawb yn eu hwyliau gorau!

Aeth plant yr ysgol i gymryd rhan
yng nghystadlaethau Ffeiriau Haf
Ysgolion Llanwenog a Llanwnnen.
Diolch yn fawr iawn i'r rhieni am
fynd â'u plant yno i ymuno yn yr
hwyl a'r sbri.

Clwb 100

Ebrill 2013 - 1af- Lowri Rees,
Caeronnen, Penffordd. 2il – Lleucu
Rees, Caeronnen, Penffordd.
3ydd – Kate Davies, Tynfron,
Cwrtnewydd. 4ydd – Hannah
Evenden, 10 Heol y Waun, Capel
Dewi.

Mai 2013 - 1af – Gwyneth
Morgans, Pensarnau, Gorsgoch.
2il – Roger Smith, Brynseion,
Cwrtnewydd. 3ydd – Dylan ac Elen
Davies, 1 Tynffordd, Rhydybont.
4ydd – Lowri Rees, Caeronnen,
Penffordd.

Mehefin 2013 - 1af – Olwen
Roberts, 12 GlynBedw, Rhoslefain.
2il – Glyn a Beryl Morgan,
Clydfan, Llanymddyfri. 3ydd
– Emyr Davies, Coedlannau Fach,
Cwrtnewydd. 4ydd – Olive Davies,
Arosfa, Cwmsychbant.

Gorffennaf 2013 - 1af – James
Thomas, Hengoed, Cwrtnewydd.
2il – Madeleine Smith,
Brynseion, Cwrtnewydd. 3ydd
– Cerys Pollock, Brynmeddyg,
Cwmsychbant. 4ydd – Jac Rees,
Maesllwyd, Cwmsychbant.

Sioe Frenhinol

Llongyfarchiadau i Huw Evans,
Alltgoch a Paul Williams, Clyncoch
ar eu llwyddiant ysgubol yn y Sioe
Frenhinol.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Huw
Evans, Alltgoch ar ei llwyddiant
yn y Gerdd Rydd sef Cerdd addas
i'w llefaru yn yr Eisteddfod
Genedlaethol yn Ninbych gan
sichrau y wobr gyntaf. Da iawn.

Mab bach

Llongyfarchiadau i Bryn a Siân,
Clyncoch ar enedigaeth mab bach,
Wil Ifan ar Awst 10fed. ac ŵyr bach
arall i Paul a Bessie, Clyncoch. Pob
dymuniad da i chwi fel teulu.

Graddio

Llongyfarchiadau i Tracey
Evenden, Gwalia ar ennill Gradd
BA [Anrhydedd] Dosbarth 1af
mewn cynhwysiant Cymdeithasol
[Addysg]. Da iawn ti.

**Diolch yn fawr i:
Sefydliad y Merched
Llanfair Clydogau
£20.00**

**a
Sefydliad y Merched
Coedmor
£50.00**

am eu cefnogaeth
ariannol tuag at goffrau
cynhyrchu papur bro
CLONC.
Gwerthfawrogwn hyn yn
fawr iawn.

Clwb Clonc

Medi 2013

£25 rhif 374 :

Mrs Gwyneth Morgan,
Llety'r Dderwen, Cwmann.

£20 rhif 493 :

Iestyn Jac Wilson,
Llwynhelyg, Alltyblaca.

£15 rhif 228 :

Mrs Eluned James,
Ael-y-Bryn, Heol Maestir,
Llambod.

£10 rhif 402 :

Arwel Rees,
Llys-y-wawr, Llanllwni.

£10 rhif 449 :

Llion a Meirion Thomas,
Gilfachwen,

Rhodfa Glynhebog,
Llambod.

£10 rhif 57 :

Lyn Davies,
Madryn, Heol Fictoria,
Aberaeron.

Corsgoch

Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog

Cynhaliwyd 33ain Sioe Amaethyddol, Cynnyrch, Ceffylau a Hen Beiriannau Gorsgoch ar gaeau Glwydwern, Llanwnnen, trwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans ar ddydd Sadwrn, 17eg o Awst. Er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, cafwyd sioe lwyddiannus iawn o ran niferoedd a safon y cystadlu.

Cyflawnwyd y gwaith o feirniadu adrannau'r gwartheg biff a godro yn yr wythnosau cyn y sioe, a phleser yw cofnodi ei fod wedi bod yn llwyddiant unwaith eto. Hyfryd oedd gweld datblygiad newydd yn y sioe eleni wrth i glwb Cantre'r Gwaelod ein rhyfeddu â sgiliau eu cŵn talentog. Yn ogystal, cafwyd sioe dofednod lwyddiannus gyda tua 80 o ieir a hwyaid – nifer sylweddol i'r adran newydd sbon hon! O ganlyniad i'r tywydd gwlyb ni fu'n bosib cynnal y coetio na'r rownderi yn y prynhawn ond cafwyd tywydd braf i'r mabolgampau i blant yn y bore. Mwynhawyd yr adloniant nos yn fawr, sef 'Newshan'. Fe fydd cyfran o elw'r sioe yn cael ei roi i brynu cadair arbenigol i uned gemotherapi Ysbyty Bronglais. Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r sioe y flwyddyn nesaf.



Aeth y Bencampwrieth yn Adran y Ceffylau i 'LLANWNEN AWEL MAI' a oedd yn eiddo i Eirian Thomas, Llanwnnen. Yn y llun fe'i gwelir yn derbyn y Cwpan gan lywyddion y sioe sef Tony and Eirina Sisto.

Cyflwynwyd y gwobrau gan y Llywyddion, Mr a Mrs Tony Sisto, Blaenau Wenog, i'r canlynol:

CEFFYLAU: Ceffylau mewn llaw – Pencampwr – Eirian Thomas, Llysfaen, Llanwnnen. **Is-bencampwr** – Euros Davies, Llys y Wawr, Cwmsychbant; **Marchogaeth – Pencampwr** – Claire Brook, Mydroilyn. **Is-bencampwr** – Harry Evans, Coed-y-bryn; **Hynodion y Ceffylau** – Nathan Davies, Cwmann; **Pencampwr y Pencampwyr yr adran geffylau, ac yn derbyn cwpan Hang-On yn roddedig er cof am Tim a Dorothy Thomas, Ffynnon Rhys** – Eirian Thomas, Llysfaen, Llanwnnen.

DEFAID: Defaid Llanwenog – Pencampwr – Huw Evans, Alltgoch. **Is-bencampwr** – Huw Evans, Alltgoch. **Gwobr Cymdeithas Defaid Llanwenog** – Huw Evans, Alltgoch. **Defaid Speckled – Pencampwr** – Teulu Jones, Blaenblodau, New Inn. **Is-bencampwr** – Teulu Jones, Blaenblodau, New Inn. **Defaid Continental – Pencampwr** – Andrew a Chris Owens, Glantre, Pontsian. **Is-bencampwr** – Danny Davies, Llain, Gorsgoch. **Unrhyw frid "Lowland" arall – Pencampwr** – Andrew a Chris Owens, Glantre, Pontsian. **Is-bencampwr** – Teulu Morgans, Glwydwern. **Unrhyw frid mynyddig arall – Pencampwr** – Teulu Davies, Llwynfedw, Llanybydder. **Is-bencampwr** – Teulu Price, Gelliwrol, Cwmann. **Oen i'r cigydd – Pencampwr** – Andrew a Chris Owens, Glantre, Pontsian. **Is-bencampwr** – Teulu Jones, Blaenwaun Ganol, Llanwnnen. **Pencampwr y Pencampwyr yr adran ddefaid** – Andrew a Chris Owens, Glantre, Pontsian.



Young handler – Nia Morgans, Glwydwern. **Barnu Wyn Tew C.Ff.I** – Cennydd Jones, Rhydowen, Pontsian.

DOFEDNOD: Pencampwr – Mrs D Cook, Llanybydder. **Is-bencampwr** – Mrs D Cook, Llanybydder.

GWARTHEG BIFF: Pencampwr – Teulu Hughes, Cwmhendryd, Llanbedr Pont Steffan. **Is-bencampwr** – Gethin a Rhian Jones, Mynachlog, Talgarreg.

GWARTHEG GODRO: Pencampwr – Teulu Williams, Glyncoch, Cwrtnewydd. **Is-bencampwr** – Teulu Davies, Abertegan, Llanwenog.

HEN BEIRIANNAU: Elgan Jones, Cwrtnewydd

Y BABELL: Cynnyrch Gardd – Aeron Davies, Cribyn; **Coginio** – Gwyneth Morgans, Pensarnau; **Gwinoedd** – Margaret Jones, Cwrtnewydd; **Cyffraith** – Margaret Jones, Cwrtnewydd; **Gwaith Llaw** – Sally Rees, Llanarth; **Blodau** – Erika Davies, Capel y Groes; **Cystadlaethau 18 oed neu iau** – Briallt Williams, Gorsgoch; **Cystadlaethau 26 oed neu iau** – Enfys Hatcher, Gorsgoch; **Adran Plant Ysgol Gynradd: Blwyddyn 6 neu iau** – Nia Morgans, Glwydwern; **Blwyddyn 2 neu iau** – Elen Morgan, Drefach; **Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio, ac yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog** – Ysgol Llanwenog; **Cwpan Her Blaencathal, am focs o gynnyrch gardd** – Bessie Williams, Glyncoch; **Pencampwr y babell, ac yn ennill cwpan her Malcolm Fuller** – Margaret Jones, Cwrtnewydd.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Graham a Katrina Parry, Penlon ar enedigaeth mab bach, Brandon.

Hefyd, llongyfarchiadau i Frank a Rowena Sisto, Brynaerau ar enedigaeth wyres fach – Daniella Fflur. Merch fach i Caryl a Chris a chwaer fach i Trystan Wyn.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r diweddar Ronald Jones, Meinigwynion Mawr a fu farw wythnosau yn unig wedi ymadawiad ei annwyl wraig. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyrar ar adeg mor drist.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Dannie Davies, Llain a'i deulu ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith sef Melva Davies, Landdu a'i frawd sef Tommy Davies, Marion Cattage, Llanon.

Ar ddiwedd mis Awst bu farw Wyn Morgans, Pensarnau [gynt o Glwydwern]. Cydymdeimlir yn ddwys â'i wraig Gwyneth, a'i feibion Eifion, Gareth, Huw, ac Elfyn ynghyd â'u teuluoedd yn eu galar.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Jean Evans, Llwyn-y-Gôg ar ôl cyfnod o salwch yn ddiweddar.

Hefyd, mae'n hyfryd gweld Sally Thomas, Is-y-coed adref ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty. Croeso adre Sally.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Gwilym Jenkins, Glynmeherin, Gorsgoch, a gwblhaodd yn llwyddiannus, ras y 10k yn Llundain, yn y gwres poeth ar ddydd Sul 14eg o Orffennaf. Gwilym oedd yr unig redwr o Gymru i gymryd rhan yn y ras ac i godi arian ar gyfer y R.A.B.I. (elusen sy'n cynorthwyo a chefnogi amaethwyr mewn angen). Llwyddodd Gwilym i godi oddeutu £2,000.

Gor-ŵyr

Daeth hapusrwydd i Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gog yng nghanol mis Awst pan ganwyd gor-ŵyr arall iddi, mab i'w ŵyr Bryn a'i bartner Sian.



Pencampwr Adran Defaid Llanwenog yn Sioe Llambod oedd Elfyn Morgans, Glwydwern, ac ef enillodd hefyd y grŵp o dri.

O'r Cynghorau Bro



CYNGOR TREF LLAMBED

Y Maer: Dorothy Williams; Clerc: Eleri Thomas;
Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris;
Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 27 Mehefin 2013 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer.
Offrymwyd gweddi gan Derek Wilson.

Plismona - Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu lawnsio Cynllun Comisiynydd yr Heddlu yn Aberystwyth, 4 Gorffennaf.

Y Cwmins - Nodwyd bod y Cyngor Sir wrthi'n ceisio sicrhau union statws y Cwmins ond dywedwyd nad oedd

y tir erioed wedi ei gofrestru'n dir comin cyfreithiol yn unol â Deddf Cofrestru Tir Comin 1865.

Y Ffair Fwyd - Cynhelir Ffair fwyd Llambled ar dir y Coleg ar 27 Gorffennaf.

Gwefan y Cyngor - Nodwyd bod angen sicrhau bod gwefan Cyngor y Dre yn gyfredol.

Llambled yn eu blodau - Nodwyd nad yw'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal bellach.

Lle Gwag - Cadarnhawyd bod un lle gwag ar y cyngor.

Trawsnewid Llambled - Neuadd Fictoria - mae llechen dros wedi ei chodi. Cegin newydd - bydd cegin newydd yn cael ei gosod yn fuan.

Cofio'r Ryfel Byd Cyntaf - Byddai'r pwnc yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

O'r Cynulliad gan Elin Jones



O blith y pynciau sy'n codi mewn gohebiaeth ac mewn cymorthfeydd ar draws y sir, mae safon gwasanaeth band-llydan yn sicr yn un sy'n codi'n aml. Mae cyflymder y cysylltiad yn broblem barhaus i nifer o bobl sy'n byw yn bell o gyfnewidfa ffôn, ac hefyd i nifer o bentrefi. Yn ddiweddar mae pobl wedi cysylltu gyda mi o Beulah, Bryngwyn, Goginan, Cwmrheidol, Llanfihangel-y-Creuddyn, Llanwnnen, Llanwenog a Bwlch-llan. Rwy' wedi bod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i weithredu, ac hefyd cefais gyfarfod yn ddiweddar gydag Ann Beynon, pennaeth cwmni BT yng Nghymru. Esboniodd hithau rai agweddau o'r cynlluniau sydd gan y cwmni i gyflwyno'r gwasanaeth newydd cyflym dros y ddwy flynedd nesa. Fydd hi fawr o werth i nifer o bobl Ceredigion i gael gwifrau ffeibr newydd i'r gyfnewidfa os nad oes gwelliannau i'r gwifrau i'r tŷ. Cefais sicrhau fod y cwmni yn mynd i gysylltu tai yn uniongyrchol â'r system newydd mewn rhai ardaloedd, ond bydd angen cadw golwg agos ar y sefyllfa er mwyn sicrhau nad yw Ceredigion yn colli allan. Mae croeso i chi gysylltu gyda mi os oes gennych broblemau band-llydan yn eich ardal.

Mae'r rhyngwrdd mor bwysig i nifer o fusnesau bach, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â thwristiaeth, ac mae'n braf gweld fod nifer o fusnesau yn y sector yma wedi cael blwyddyn tipyn gwell eleni. Mae cwmnïau bwyd bychan hefyd yn bwysig i economi Ceredigion, ac mi ymwelais â gwyliau bwyd ffyniannus Aberteifi a Llambled yr haf yma. Hefyd cadeiriais fforwm ar y diwydiant bwyd a drefnwyd yn Aberystwyth gan Sefydliad y Merched; roedd yn ddiddorol clywed nifer o syniadau am sut i hybu cynnyrch lleol.

Gan orffen ar newyddion da, mi sgwennais yn y golofn hon yn y gwanwyn am sut oedd rhai grwpiau cymunedol yn defnyddio cyfundrefn ddeisebau'r Cynulliad. Wel, cafodd Blaenporth lwyddiant yn ddiweddar, gyda phenderfyniad Llywodraeth Cymru i gael cyfyngiad cyflymder newydd ar y briffordd. Llongyfarchiadau i'r cyngor cymuned lleol a'r rheiny fu'n ymgychu mor ddiwyd.

Ffarmers

Cymdeithas Sioe Amaethyddol Cao a Llanercwys

Cynhelir y Sioe flynyddol eleni ar ddydd Sadwrn, y 7fed o Fedi yn Ffarmers. Hon fydd y 90fed sioe yn hanes y Gymdeithas, a'r Llywydd eleni fydd David Davies, Blaentwrch. Mae David wedi bod yn weithgar gyda'r Gymdeithas ers ail-gychwyn y Sioe yn y 70'au, a bu yn Drysorydd am gyfnod hir ers yr ail-sefydlu. Pleser felly fydd cael croesawu David fel Llywydd 2013. Cynhelir y Sioe yn Ffarmers gan wneud defnydd o'r Neuadd a thir yn y pentref gydag adrannau i'r Ceffylau, Defaid, Cŵn, Cynnyrch Fferm a Gardd, Blodau, Coginio, Diwydiannol, Arlunio, Ffotograffiaeth, ac adrannau i'r plant - rhywbeth i bawb! Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifenyddion - Mrs Joan Stacey a Ms Karen Stacey ar 01558 650238.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr 2014

Mae parti bechgyn 'Ar Wasgar' yn cynnal Cyngerdd yn Neuadd Bro Fana ar nos Wener, yr 22ain o Dachwedd i godi arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn Sir Gâr y flwyddyn nesaf. Yr unawdydd fydd y tenor poblogaidd, llawn bwrwm a direidi o Bencafer - Aled Hall - un o'r 'Tri Tenor'. Yn sicr o fod yn noson llawn hwyl. Llywydd y noson fydd Rhodri Gomer Davies o Gaerdydd.

Mae ardal Ffaldybrenin a Ffarmers hefyd wedi trefnu Noson Caws a Gwin yn y Neuadd ar nos Wener, yr 11eg o Hydref, gydag elw y noson yn mynd tuag at yr Eisteddfod. Llywydd y noson fydd Elin Watkins, Llanybydder (Rhosybedw gynt), ac mi fydd Hywel Gwynfryn hefyd yn bresennol, ac yn cymeryd at yr ocsiwn a gynhelir ar y noson.

Bydd manylion pellach am y ddau ddigwyddiad ar gael yn nes at y dyddiad.

Neuadd Bro Fana

Yn dilyn cyfnod gymharol dawel yn y Neuadd dros y misoedd diwethaf, mae Cyngor y Neuadd wedi cychwyn ar ei rhaglen ar gyfer misoedd yr Hydref. Byddwn yn croesawu Cwmni Drama Cudyll Coch o Landeilo i'r pentref ar nos Sadwrn, 19eg o Hydref.

Mae'r Clwb Crefftiau yn dal i gwrdd yn y Neuadd ar nos Fercher, ac mae'r dosbarthiadau Yoga bellach wedi symud o nos Iau i nos Fawrth, gyda Kathy Crick o Gellan yn hyfforddi, gan gychwyn am 6.30. Mae grŵp 'Gemau Bwrdd' yn cwrdd ar nos Iau am 7.00 o'r gloch, ac mi fydd dosbarthiadau 'cwiltio' yn cychwyn yn yr Hydref. Yn dilyn ymgynghoriad cymunedol a gynhaliwyd yn yr ardal yn y gwanwyn, mae grŵp o wirfoddolwyr wedi dod at ei gilydd gyda'r bwriad o sefydlu menter gymunedol i gychwyn siop, caffi a chaffi rhyngwrdd yn y Neuadd. Os oes gennych ddiddordeb yn y prosiect yma, cysylltwch gyda Carole Piller ar 01558 650228 / cmp46@msn.com neu Elaine Parker ar 01558 650606 / elaineparker@btinternet.com

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

 **Toriad
Taclus**

Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Cwmsychpant

Sioe Cwmsychpant 2013

Ar ddydd Sadwrn, Awst 10fed 2013 cynhaliwyd Sioe Flynyddol Cwmsychpant ar Cylch ar gaeau Waun, Rhydownen drwy garedigrwydd Mrs Ella a Vernon Davies.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor ac eleni roedd yr elw yn mynd tuag at Uned Cancr Y Fron, Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli. Codwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei drosglwyddo nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bu'r Treialon ymlaen yn gynnar iawn y bore tan yr hwyr ac roedd y cynnyrch a welwyd yn y babell o safon uchel a'r babell yn orlawn. Cynhaliwyd mabolgampau i'r plant ac roedd yr arddangosfa o hen beiriannau yn werth i'w gweld.

Ein Llywydd eleni oedd Mrs. Menna Griffiths, Pantsioiar, Llanpumsaint (Brynllwyd gynt) a braf iawn oedd cael ei chwmni. Am dri o'r gloch cafwyd araith bwrpasol ar ffurf penillion ganddi a mawr yw ein diolch am ei rhodd haelionus.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw.

I ddod â diwrnod bythgofiadwy i ben cafwyd cwmni Gwibdaith Hen Fran. Daeth cynulleidfâ niferus i wrando a mwynhau eu perfformiad arbennig.

Rhestr enillwyr y Dydd:

Treialon Cŵn Defaid - Cenedlaethol Agored - I.B. Jones a Joe; **Nofis Cenedlaethol** - Gareth Davies a Lad; **Agored De Cymru** - Gareth Davies a Lad; **Nofis De Cymru** - Gareth Davies a Lad.

Gwinoedd – Megan Richards, Bryn Deri Aberaeron. **Cyffeithiau** – Margaret Jones, Caeglas, Cwrtnewydd. **Coginio** – Wendy Davies, Caerwenog, Penffordd. **Gwaith Llaw** – Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann. **Crefft** – Dai Davies, Brynerw, Ciliau Aeron. **Ffyn** – Elen Davies, 1 Tynffordd, Rhydybont. **Ffotograffiaeth** – Eleri Jenkins, Bryngolau, Alltlyblaca. **Arlunio Plant - Bl. 2 a thano** - Jessica Thomas-Crick, Ysgol Pontsian. **Bl. 3 a 4** – Guto Ebbsworth, Ysgol Llanwnnen. **Bl. 5 a 6** – Kieren Rollins, Ysgol Pontsian. **Adran Plant - 8 a thano** - Sara Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd. **9 a than 12** – Lleucu Rees, Caerwynn, Penffordd. **12 a than 17** - Meinir Davies, Caerwenog, Penffordd. **Adran Blodau** - Erika Davies, Felinban, Capel y Groes. **Celfyddyd Blodau** – Erika Davies, Felinban, Capel y Groes. **Cynnyrch Gardd** – Aeron Davies, Llainffynnon, Cribyn.

Adran Geffylau - Pencampwr yr Adran Geffylau – Dai Davies, Clogfryn, Aberaeron. **Pencampwr yr Adran Geffylau i Blant** - Phoebe Prater, Penlanfawr, Cwrtnewydd.



Yn Adran y Defaid y Pencampwr yn Sioe Cwmsychpant oedd Hwrrdd Llanwenog dwy flwydd oed o eiddo Gareth, Wendy ac Iwan Evans, Parc-y-hos, Gorsgoch.

Prawf gyrru

Llongyfarchiadau i Meleri Davies, Tyngrug-Isaf ar basio ei phrawf gyrru ar ddiwrnod cyntaf mis Gorffennaf.

Ar wellhad

Braf yw gweld Carys Davies, Llys-y-Wawr wedi gwella ar ôl derbyn llaw driniaeth ar ei phen-glin yn ddiweddar. Hefyd i Heather Price, Esgereinon sydd yn gwella ar bod yn anhwylyd dros yr haf.

Dathlu

Ar fore dydd Mercher y Sioe Frenhinol bu Carwyn Davies, Caerwenog yn cystadlu yn adran y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn y gwaith Crefft. Llwyddodd Carwyn i ennill y wobwr gyntaf ar ddiwedd y dydd. Da iawn ti.

Hefyd, yn ystod mis Awst dathlodd Carwyn ei ben-blwydd yn ddeunaw

oed. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Beca Jenkins, Hafan y Cwm ar basio arholiad Step 2 gyda theilyngdod yn ddiweddar. Da iawn ti.


Ysgol Sul Capel-y-Cwm

Ar ddydd Sadwrn olaf mis Gorffennaf aeth trip blynyddol yr Ysgol Sul i Heatherton yn Sir Benfro. Cafwyd diwrnod hwylus iawn yn mynd o un gweithgaredd i'r llall. Yna, aethpwyd ymlaen i draeth Dinbych y Pysgod lle cafodd bawb gyfle i nofio a chwarae gêm o Rownderi. Cafwyd sgldion yn y dref cyn mynd nôl ar y bws a dychwelyd am adref. Erbyn hyn roedd pawb wedi blino'n llwyr – diwrnod i'w gofio!

Ar y teledu

Gwelwyd Sion, Wendy, Beca a Lisa Jenkins, Hafan y Cwm ar raglen '100 o blant' yn ystod mis Awst.

Cellan



Siwan Mair yn ennill yr ail wobwr ar yr unawd dan 8 oed a'i chwaer Gwenan Haf Jones yn ennill y cyntaf ar yr Unawd Piano dan 12 oed. Maent yn wyresau i Ken a Mary Jones, Glasfryn, Cellan.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan ar nos Fawrth, Hydref 8fed. Gwasanaethir gan Mrs Delyth Morgans Phillips, Llambod. Croeso cynnes i bawb.

Ar wellhad

Braf yw gweld Rob Thomas, Llain-deg adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty dros yr haf.

Betws Bledrws

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â theulu y diweddar Mr Tom Jones, Garden House sef ei ferch Margaret a'i theulu a Wynne y mab a'i deulu yntau. Cymdeimlir â'r holl gysylltiadau teuluol eraill a ffrindiau.

Pentrebach

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Eric a Mair Jones, Pant-têg ar golli ei chwaer Sally a oedd yn byw yn Llambod yn ddiweddar.

60 oed

Yn ddiweddar, dathlodd David Williams, Dolaugwyrddion ei ben-blwydd yn 60 oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Diolch

Dymuna Eric Jones, Pant-têg ddiolch am y cardiau, galwadau ffôn a dymuniadau gorau yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

Hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt fel teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer Mrs Sally Jones, Maerdy, Llambod.

Llanbedr Pont Steffan



Gerwyn Jones cadeirydd Cyn-ddiffoddwyr Tân Llanbedr yn cyflwyno sic am £250 i Ros Jones, ar ran Ambylans Awyr Cymru. Codwyd yr arian mewn siasynau Bingo yng Nghlwb Peldroed Llanbedr ar nos Fawrth. Hefyd yn y llun mae Arthur Roderick, Phylis Smith MBE ac Eric Williams.



Gerwyn Jones, Cadeirydd Cyn- Ddiffoddwyr Tan Llanbedr yn cyflwyno sic am £250, sef arian a godwyd yn eu Nosweithiau Bingo a drefnir ganddynt, i Prescilla Bowden, Swyddog codi arian Ty Hafan. Hefyd yn y llun mae Arthur Roderick, Phyllis Smith MBE, ac Eric Williams.

Diolch

Mae Ambylans Awyr Cymru wedi derbyn sic am £1,640 oddi wrth Mr J Davies a'r teulu er cof am ei briod Beti Davies, Bryncastell.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Irene Jones, Penarth, Heol-y-Bryn sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Bachgen bach

Llongyfarchiadau i Berwyn ac Elin, Pontfaen ar enedigaeth mab bach, Tomi Steffan a hynny trannoeth i Sioe Llanbedr.

Hefyd i Aeron ac Ann Hughes, Cwmhendryd ar ddod yn ddatcu a mamgu ac i Mrs Magw Hughes, Pantdderwen ar ddod yn hen-famgu. Pob dymuniad da i chwi gyd.

Priodas

Llongyfarchiadau i Elonwy Pugh a Kees Huysmans o Dregroes ar eu priodas yn Eglwys Llanbedr ar ddydd Gwener, Awst 16eg a phob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd yn Heol y Gogledd.

Gyrfa Chwist - Cartref Hafan Deg

Ar 31ain o Orffennaf cynhaliwyd Gyrfa Chwist ynn Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llanybydder yn arwain a Mrs Nancy Davies wrth law.

Enillwyr fel a ganlyn -

Dynion - 1af - Joan Lewis, Stryd Newydd, Llanbedr. 2il - Peter Jones, Llanbedr. Cydradd 3ydd - Gwendoline Jones, Llanybydder a Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach..

Merched - 1af - Ceri Lloyd Ffostrasol. 2il - Nana Davies, Stryd Newydd, Llanbedr. 3ydd - Nancy Davies, Heol Y Wig, Llanbedr.

Carden Miniature -- Dynion - Edward Lockyer, Hafandeg.

Merched - Dilwen Rodrick, Stryd Y Bont, Llanbedr.

Bwrw Allan - Enillwyr - Peter Jones, Llanbedr a Cathrina Davies, Aberaeron. Ail - Marged Phillips, Tregaron a Iorwerth Evans, Llanybydder.

Yna, ar 14eg o Awst cynhaliwyd Gyrfa Chwist arall yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llanybydder yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn -

Dynion - 1af - Breian James, Trelech. 2il - Peggy Davies, Brohenllys, Felinfach. 3ydd - Joan Lewis, Stryd Newydd, Llanbedr.

Merched - 1af - Dilwen Rodrick, Stryd Y Bont, Llanbedr. 2il - Gwyneth Williams, Prengwyn.

Cydradd 3ydd - Ceri Lloyd, Ffostrasol a Nancy Davies, Heol Y Wig, Llanbedr.

Carden Miniature - Dynion - Peter Jones, Llanbedr.

Merched - Nanna Davies, Stryd

Newydd, Llanbedr.

Bwrw Allan - Enillwyr - Iorwerth Evans, Llanybydder a Margaret Jones, Pentrebach, Llanbedr. Ail - Harry Williams, Ystrad Aeron a Morfydd Slaymaker, Llanbedr.

Bydd y Gyrfaodd Chwist Mis Medi ar 11fed a 25ain

Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Mrs Morfydd Jones a'r teulu Brynfa, Heol y Wig ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad ar ôl colli Owen mor sydyn -gŵr a thad annwyl iawn. Casglwyd y swm anrhydeddus o £655 sydd bellach wedi ei gyflwyno at waith yr Uned Stroc a Ffisiotherapi Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Tadeu a Mamgu, sef Aneurin a Sallie Jones, Hathren, Heol y Bont, Llanbedr Pont Steffan, a fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar Ddydd Sadwrn Medi 7fed oddi wrth Gwion, Sion ac Ela Gwennon.

Cymdeithas Hanes

Bydd tymor newydd y gymdeithas yn cychwyn nos Fawrth Medi'r 17eg, 7.30 y.h. yn Hen Neuadd Coleg y Brifysgol fel arfer. Yr Athro David Austin fydd y siaradwr,

yn rhoi rhagor o hanes Cellan, yn ddilyniant i'r hyn a gaed sawl tymor yn ôl erbyn hyn. Edrychwn ymlaen i groesawu'r aelodau ffyddlon, a nifer o rhai newydd hefyd gobeithio.

Merched y Wawr

Cynhelir cyfarfod cyntaf cangen Merched y Wawr Llanbedr ar Nos Lun Medi 9 fed am 7.30 y.h. yn Festri Shiloh. Bydd ein llywydd Mrs Morwen Thomas yn croesawu yr arlunydd ifanc Rhiannon Roberts, a fydd yn rhoi ei hanes a chyflwyno ei gwaith. Bydd yn gyfle gwych i ni fel aelodau i gefnogi arlunydd ifanc Cymreig trwy archebu ei gwaith. Croeso cynnes i'n haelodau presennol, aelodau newydd a dysgwyr.

Plaid Cymru

Ar nos Wener 4 Hydref am 7 o'r gloch yn Festri Brondeifi, cynhelir noson gymdeithasol yng nghwmni Gwenan Gibbard a Meinir Gwilym - dau lais a dau offeryn yn uno i greu un sŵn unigryw. Bydd cyfle hefyd i gwrdd â Mike Parker, ymgeisydd y Blaid ar gyfer etholiad San Steffan 2015. Pris mynediad yw £10, sy'n cynnwys paned o de a chacen. Tocynnau ar gael o Siop y Smotyn Du neu oddi wrth Ann Morgan 422413, neu Rob a Delyth Phillips 422992. Dewch yn llw!

Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boes yn cynnwys y rhifau 1-9

Erw
Cyfeiriad
Coc post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

1		2			
	6	8	9		
		5	3	2	6
8			4	6	
		7	5		9
				7	3
			6	9	5
				1	7
					9
					5

Atebion Swdocw mis Gorffennaf:

Llongyfarchiadau i: **Rhian Bellamy Powell, Erw Deg, Maesycrugiau,** ac i bawb arall am gystadlu: Teifion Williams, Bronallt, Llangadog; Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder; Shirley Walker, Heol-y-Gaer; Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Delyth Edwards, Deulan, Llansawel; Bet Davies, Manglas, Cwmann.

3	1	4	8	5	2	7	6	9
5	8	9	7	6	3	4	1	2
6	2	7	9	1	4	8	5	3
4	9	5	1	2	6	3	8	7
7	3	8	4	9	5	6	2	1
2	6	1	3	8	7	9	4	5
1	5	3	6	7	8	2	9	4
9	7	6	2	4	1	5	3	8
8	4	2	5	3	9	1	7	6

Llanbedr Pont Steffan

Capel Shiloh

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Eglwys Shiloh nos Fercher Medi 25 am 7 o'r gloch. Bydd y Parch Carys Ann Glynarthen yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Noddfa

Cynhaliwyd oedfa deuluol yn Ysgol Carreg Hirfaen ar brynhawn Sul 21 Gorffennaf. Er bod sawl teulu wedi methu bod gyda ni da oedd gweld nifer teilwng wedi dod ynghyd yn cynnwys babanod, plant, ieuencid ac oedolion i addoli ac i gael hwyl yng nghwmni ei gilydd. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos a chyhoeddwyd yr emynau gan Lisa, Elan, Beca, Osian a Sion ac yn cyfeilio roedd Janet. Darllenwyd rhan o'r gair gan Llinos yn sôn am Iesu yn galw Simon a'i frawd Andreas ynghyd â'r brodyr Iago ac Ioan i'w ddilyn ef, tra roeddent yn pysgota. Yna bu'r plant yn cynorthwyo'r Gweinidog drwy ail greu'r sefyllfa ar lan môr Galilea a chael hwyl wrth wneud hynny yn enwedig trafod y rhwyd bysgota enfawr! Soniodd ein Gweinidog pa mor bwysig yw dilyn esiampl Iesu a'i ddisgyblion trwy garu pawb a gwneud ein gorau i'w cynorthwyo bob amser er ei bod yn anodd gwneud hynny ambell waith. Diolchodd i Aled Evans Pennaeth Carreg Hirfaen am gael defnydd o'r ysgol, i'r rhai oedd wedi cymryd rhan ac i bawb am eu cefnogaeth. Mawr yw ein dyled i'n Gweinidog hefyd am ei pharatoadau hithau.

Allan â ni wedyn i gae'r ysgol i fwynhau picnic a chlono yn yr heulwen braf.

Roedd y Mamau wedi paratoi cŵn poeth i'r plant a bu nifer o'r oedolion yn cyfranogi ohonynt hefyd! Cafodd y plant llawer o hwyl yn yr awyr agored - rhai ohonynt yn dangos eu sgiliau arbennig yn y maes pêl droed.

Bu'n brynhawn bendithiol a phleserus dros ben a'r tywydd tesog yn goron ar y gweithgareddau.

Oedfa'r Eisteddfod

Braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd o eglwysi'r dref i Noddfa ar gyfer oedfa Eisteddfod Rhys Tomos James Pantyfedwen. Pleser oedd cael cwmni Maer y dref, y Cynghorydd Dorothy Williams. Ar ran Gweinidog, swyddogion ac aelodau Noddfa croesawyd pawb yn gynnes iawn gan Llinos Jones. I ddechrau'r gwasanaeth cafwyd datganiad hyfryd o'r emyn 'Agor ein llygaid' gan Lowri Elen a hi hefyd gyflwynodd y weddi agoriadol a'r emyn cyntaf. Cyhoeddwyd emynau hefyd gan Osian Jones, Tomos Jones a Tomos Rhys. Darllenwyd rhan o'r Gair gan Sian Jones, Rhandir a gweddiwyd

gan Delyth Morgans Phillips. Pleser oedd gwrando ar Elan Jones yn canu'r emyn 'Hapus wyf fi'. Y Gweinidog gwadd oedd y Parchedig Eirian Wyn Lewis o Fynachlogddu sydd eleni yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru. Diolchodd yn ddiffuant am y gwahoddiad a hefyd i Janet am drefnu'r oedfa. Cafwyd ganddo bregeth arbennig iawn a erys yn y cof am amser hir ar y testun 'Gwisgwch yr Arglwydd Iesu Grist amdano'. Roedd ei neges yn un diddorol a phwrpasol ac fe'i cyflwynwyd ganddo mewn ffordd didwyll, effeithiol a hwyliog.

Talwyd diolch haeddiannol iddo gan ein Gweinidog y Parch Jill Tomos am ei gyfraniad gwerthfawr a thalodd ei gwerthfawrogiad hefyd i'r plant a'r bobol ifanc oedd wedi cymryd rhan a gwneud eu gwaith mor raenus ac i Llinos am ei gwasanaeth wrth yr organ. Casglwyd y swm o £143.40 i'w rannu rhwng Cymorth Cristnogol a Chyngor Ysgolion Sul Cymru.

Roedd pawb yn bresennol wedi derbyn bendith a mwynhad wrth gyd addoli mewn oedfa undebol fendigedig yn Noddfa a'r ieuencid yn arwain yr addoliad.

Ysgol Sul Noddfa

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau yn dilyn gwyliau'r haf nos Wener 6 Medi o 4 hyd 5 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fanylion pellach cysylltwch â Llinos neu Janet.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Noddfa nos Lun 30 Medi am 7 o'r gloch a'r Parchedig Athro Densil Morgan yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiwyll â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod misoedd yr haf.

Lansio Llyfr

Nos Iau 19 Medi am 6.30 yng Nghanolfan Edward Richard, Ystrad Meurig cynhelir Lawnsiad y llyfr 'From Aberystwyth to San Francisco' gan Wasg Carreg Gwalch.



Carl Douglas yn ennill cystadleuaeth bowlïo agored i unigolion haf 2013, Clwb Bowlïo Llanbedr Pont Steffan, ac yn derbyn Tlws Coffa Jeff Edwards. Yn y llun mae Gethin Edwards a Steve Entwistle.



Berwyn Hughes, Cwmhendryd, Llambd yn ennill yn Sioe Llambd yn y dosbarth Agored Biff Masnachol.

Detholiad a chyfieithiad yw gan Margaret Jones, 24 Penbryn, Llambd o Lythron y Parchedig W.D. Evans (Cymru a'r Unol Daleithiau) i'r Faner yn yr 80au a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Darperir lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Taenwyd cwmwl o dristwch dros ardal eang yn dilyn marwolaeth sydyn Ann Lewis, Bronwydd, Stryd y Bont ar ddechrau penwythnos gŵyl y banc. Rhoddodd Ann flynyddoedd o wasanaeth amhrisiadwy i'w chymuned. Roedd yn aelod ffyddlon a gweithgar o nifer o fudiadau a phwyllgorau yn cynnwys Merched y Wawr Llambd a Sefydliad y Merched Coedmor heb anghofio ei chyfraniad gwerthfawr iawn i'w chapel sef Bethel Parcyrrhos, fel ysgrifennydd ac organyddes am gyfnod maith. Hi oedd un o Lywyddion Sefydliad y Merched eleni. Roedd Ann yn berson cymwynasgar, caredig ac yn uchel iawn ei pharch yn y gymdeithas ac yn ffrind i bawb.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'i phriod Gwynfor, y plant Dylan a Dafydd a'u teuluoedd ynghyd â'i brawd Eiddug a'r perthnasau i gyd yn eu profedigaeth lem.

**Llongyfarchiadau
i BAWB a wnaeth
sefyll arholiad
TGAU, UG neu
Safon UWCH
yn ystod yr haf.
Dymuniadau gorau
i chi gyd i'r dyfodol.**

Rhifyn mis Hydref

Yn y Siopau
Hydref 3ydd

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Medi 23ain

Gwersi Gitar: Theatr Felinfach
Stafell Gynadledda
Nos Fercher 16.30-21.00

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE
Gwersi Gitar Cymraeg
Caneuon Rygbi
Gitar i'r Cristion

01974 299367

Hel atgofion, ac edrych ymlaen

Bydd rhaid i chi faddau ychydig o hel atgofion, gan ei bod yn chwarter canrif ers pan ymlwybrodd criw bach ohonon ni i fyfyr grisiau haearn yng nghefn rhif 13 Stryd y Bont Llanbed i ddechrau ar fenter sydd – mae'n deg dweud – wedi newid y wasg a newyddiaduraeth Gymraeg yng Nghymru.

Ar wahân i wythnos neu ddwy wrth aros i'r swyddfa honno ddod yn barod yn yr adeilad lle'r oedd SWEB, Llanbed yw cartref Golwg o'r dechrau un. A ninnau bellach ar y Stad Ddiwydiannol ar Hewl Tregaron, mae'r cylchgrawn wythnosol wedi magu teulu – Wcw i blant, Lingo Newydd i ddysgwyr a Golwg360, yn wasanaeth newyddion ar-lein am ddim i bawb.

Fy hoff stori am y cyfnod cynnar hwnnw ydi'r tro pan ddaeth fy nhad a mam i lawr i Lanbed i chwilio amdana' i (i ddweud helo, nid am fy mod wedi bod yn hogyn drwg). Dyma nhw'n gofyn am Golwg ... a chael eu hanfon ar eu pen i siop yr optician!

Doedd y cyfarwyddyd ddim mor wirion â hynny. Trio helpu pobol i weld yn well ydi un o bwrpasau newyddiaduraeth go iawn ... trwy holi a dadansoddi a disgrifio. Ac, o wneud syms ar gefn amlen go fawr, mi faswn i'n meddwl ein bod wedi cyhoeddi tua miliwn o eiriau'r flwyddyn i wneud hynny.

Mae'r geiriau hynny bellach yn cael eu trin yn wahanol iawn i sut yr oedd hi yn 1988 – mae'r dechnoleg wedi newid yn syfrdanol. Dw i'n cofio Antur Teifi – a oedd yn gymorth hanfodol i ni ar y dechrau – yn cael y peiriant ffacs cynta' yn y Dyffryn ... bellach, rhaid egluro i blant be oedd y rheiny.

Yn y dyddiau cynnar (a'r nosweithiau ofnadwy o hwyr) roedden ni'n defnyddio clamp o beiriant a rhyw gymysgeddau cemegol afiach i gynhyrchu llun o bob tudalen a Dilwyn Lampeter House yn eu cario nhw'n selog i Cambrian Printers ar ei ffordd i'w waith. Roedd y lluniau'n gorfod cael eu trin ar wahân a'u gosod i mewn wedyn.

Bellach, mae Golwg yn mynd yn gyfan o Lanbed i Aberystwyth gyda dim ond pwyso botwm. O ran theori beth bynnag, mi allech chi gynhyrchu'r cylchgrawn i gyd heb ddefnyddio sgrifffidyn o bapur. A'r gair mawr newydd ydi Ap – y ddyfais sy'n caniatáu ichi ddarllen Golwg ar sgriniau iPhone neu iPad.

Mae'r dechnoleg yn gwneud y gwaith yn haws erbyn hyn ond mae'n gallu bod yn felltith hefyd. Un o'r peryglon mawr ydi camgymeriadau teipio ac argraffu ac mae gan beiriannau eu ffordd eu hunain gyda'r rheiny. Rhywsut neu'i gilydd, mae peiriannau'n gallu dewis y camgymeriad gwaetha' posib.

Yr enwoca' yn hanes cynnar Golwg oedd hwnnw a gafodd sylw gan Gwilym Owen ar y bocs. Roedd gynnon ni lun o ddyn oedrannus yn aros am driniaeth mewn ysbyty (dydi rhai straeon ddim yn newid) a'r caption i fod i gyfeirio at "hen ŵr". Rhywsut neu'i gilydd mi lwyddodd y peiriant (efo help dynol siŵr o fod) i roi 'h' o flaen yr "ŵr".

Ond pobol sy'n gwneud cylchgrawn ... o'r ddau gyfarwyddwr gwirfoddol cynta', Roy Stephens a Wynne Melville Jones – i'r criw cyfarwyddwyr sy'n dal i gynnal ein breichiau heddiw, a'r rheiny'n cynnwys pobol leol fel Geraint Llanwenog a Rhiannon Lewis.

Does dim lle i ddechrau enwi'r gweithwyr – llawer o'r newyddiadurwyr yn treulio cyfnodau cymharol fyr efo ni cyn symud ymlaen, golygyddion a dylunwyr sy'n rhoi eu stamp eu hunain ar y cynnyrch, a'r staff busnes a gweinyddol ... llawer o'r rheiny'n bobol leol ac yn deymgar dros ben.

A'r bobol eraill, wrth gwrs, ydi'r darllenwyr ... tua 12,000 ohonyn nhw bob wythnos. Beth bynnag sy'n digwydd i'r iaith yn gyffredinol, mae eu nifer nhw wedi aros yn gyson tra bod papurau newydd mawr yn colli darllenwyr wrth y miliwn.

Ers i ni ddechrau, mae yna genhedlaeth o ddarllenwyr wedi mynd ... pobol yr oedd darllen Cymraeg yn rhan o'u bywydau nhw erioed. Ond mae'n rhaid fod genhedlaeth newydd wedi dod yn eu lle.

A champ y chwarter canrif nesa' fydd apelio at genhedlaeth arall eto.



Coginio gyda chnwd y cynhaeaf

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r Haf, ac wedi gwleda ar y cynnyrch tymhorol. Wrth gamu i dymor newydd mae yna fwy o ddanteithion tymhorol yn llenwi'r gegin.

Mae Mis Medi yn gyfnod prysur gyda'ch cyfle i greu chutneys a jam. Yr ardd yn llawn llysiau a'r perthi yn llawn aeron. Digon o gyfle i arbrofi wrth gasglu a choginio.

Wedi cael egwyl dros yr Haf, bydd y mudiadau yn dod yn ôl i'r gegin arddangos ar y fferm, ar gyfer paratoi diwrnodau a nosweithiau o greu bwyd hydrefol eu naw.

Mwynhewch Fis Medi,

Gareth

Pancws Mwyar, Menyn ac Afalau

Cynhwysion

500 gm o afalau bramley
3 llond llwy fwrdd o siwgrwr brown
Pinsied o sinamon
Sudd hanner lemwn
25 gm o fenyn
125 gm o flawd codi
Llond llwy de o bowdwr soda
40 gm o siwgrwr caster
1 ŵy wedi'i guro
350 l o laeth enwyn
Ychydig fenyn wedi'i doddi
125 gm o fwyar



Dull

1. Pliciwch yr afalau a'u torri'n ddarnau, coginiwch mewn sosban gyda siwgrwr, sinamon, sudd lemwn a llond llwy fwrdd o ddŵr. Coginiwch am tua 20 munud. Gwasgwch yn stwnsh ac ychwanegwch y menyn.
2. Gosodwch y bawd, powdwr soda a'r siwgrwr mewn powlen. Curwch yr ŵy, y laeth a'r menyn yna'i roi i mewn i'r gymysgedd sych i greu cyteu. Plygwch y mwyar i mewn i'r gymysgedd.
3. Iwrch badell ffrio â menyn a choginiwch y pancws tua 4 ar y tro. Gweinwch gyda'r menyn, afalau ac iogwrt.

Parseli plwms a chaws

Cynhwysion

8 eirinen
100 gm / 4 oz o gaws gafr
8 darn o ham Parma neu ham Caerfyrddin



Salad

Letys ac ychydig o gnau ffrengig (walnuts)
Dwy lond llwy fwrdd o olew'r olewydd
Un llond llwy fwrdd o finegr balsamic


Dull

1. Sleiswch yr eirin yn hanner. Gwardwch y garreg a rhennwch y caws rhyngddynt. Gosodwch yr hanneri yn ôl at ei gilydd. L Lapiwch yr ham amdanynt a defnyddiwch pigyn pren i'w dal.
2. Gosodwch dan y gril am tua 5 munud. Trowch a choginiwch yr ochr arall.
3. Gosodwch y dail letys ar blât, sgeintiwch y cnau drostynt, hefyd yr olew a'r finegr, yna'r parseli plwms. Mwynhewch.

Tomatos wedi Pobi

Cynhwysion

4 tomato fawr
4 ŵy
2 llond llwy fwrdd o hufen
100 gm o gaws wedi'i gratio
50 gm o friwsion bara.



Dull

1. Sleiswch dop y tomato, gwardwch yr hadau. Gosodwch ben i waered ar ddarn o bapur cegin i ymsugno'r suddion. Rhewch mewn tun pobi neu ddysgl gydag halen a phapur i'w blasu.
2. Torrwch ŵy i bob tomato, yna rhannwch yr hufen rhwng pob un. Cymysgwch y caws a'r bara a'u sgeintio drostynt. Pobwch am tua 15 munud ar wres o 180°C; 350°F; Nwy 4. Mwynhewch.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHIAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambod
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwile mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwygo ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnwydd,
01570 434 243
07815 962 045



REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigrin
- * Sciatica
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Llanllwni

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Mrs Marie Gaveston-Knight, Honnington Hall, Llanllwni a fu farw ganol mis Awst yn Ysbyty Glangwili. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent Capel Gwynfil, Llangetho.

Drwg iawn oedd clywed yn ddiweddar am farwolaeth Maud Jones, Talardd ar ôl gwaled hir yn yr ysbyty. Bu Maud ynghyd â'i phriod Evan David yn ffermio Talardd ers rhai degawdau ac yr oedd yn ffrind ac yn gymydog i bawb. Estynnir cydymdeimlad ag Eleri a gweddill y teulu.

Cerddwn Ymlaen

Yn ddiweddar bu Rhys Meirion a'u ffrindiau yn cerdded o Abertawe i Gaernarfon i godi arian tuag at Ambiwylans Awyr Cymru. Wrth aros am gyfnod byr yn Nhafarn y Talardd, fe drosglwyddwyd iddynt y swm o £600. Ar ran y Cyngor Bro, cyflwynodd Tom Bowen, Pwllglas siec o £250, ac ar ran Pwyllgor yr Henoed cyflwynwyd siec o £350 gan Sally Davies, Maes. Yr oedd hyn yn gyfraniad ardderchog tuag at yr elusen. Y mae rhagor o arian gan Bwyllgor yr Henoed i'w gyflwyno i'r un achos eto yn y dyfodol agos.

C.Ff.I Llanllwni

Wel am flwyddyn brysur! Fel y mae y rhan fwyaf o chi siwr o fod wedi clywed erbyn hyn, eleni mae C.Ff.I Llanllwni yn dathlu 70 mlynedd ers ei sefydlu. Yr ydym wedi bod yn dathlu eisioes ar hyd y flwyddyn gyda llu o wahanol weithgareddau a digwyddiadau, yn amrywio o gyngerdd, taith tractorau, rhowch gynnig arni, helpa drysor, heb anghofio'r cinio mawredddog. Mae yna un penwythnos prysur o ddathlu gyda ni ar ôl. Ar ddydd Sadwrn y 28ain o Fedi bydd yna arddangosfa a Ras Hwyl yn Neuadd yr eglwys, Maesycrugiau. Bydd yr arddangosfa yn rhedeg o 1.00y.h hyd 4.00 y.h, ac yn gyfle gwych i bawb i ymgolli yn hanes

a llwyddiannau'r clwb yn ystod y 70eg mlynedd diwethaf, yn ogystal â chael clonc a hel atgofion. Bydd lluniaeth ysgafn wedi eu baratoi. I'r rhai mwy egniol, bydd y Ras Hwyl yn dechrau tu allan am 2.00y.h, ac fydd yna amryw o wahanol rاس, yn ôl oedran a gallu! Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Meryl ar 07791305614. Hefyd os oes gennych unrhyw eitemau yn ymwneud â hanes y clwb ac y bydddech yn fodlon i ni eu benthyg gogyfer â'r arddangosfa, eto cysylltwch â Meryl. I gloi'r flwyddyn o ddathliadau bydd yna Gymanfa yn yr Eglwys ar nos Sul y 29ain i ddechrau am 7.30y.h. Yr arweinydd fydd Mrs Elen Davies ac fe fydd amryw eitemau gan aelodau'r clwb. Croeso cynnes i bawb. Pris rhaglen fydd £3, ac fe fyddant ar gael gan Meryl.

Braf iawn yn ddiweddar oedd gweld cynrychiolaeth gref o glwb Llanllwni yn cystadlu yn y sioe Frenhinol. Llongyfarchiadau enfawr i Ifor Jones am ddod yn fuddugol mewn tîm o ddau yn beirniadu stoc yn y sioe - beirniadu'r cobiau Cymreig. Da iawn ti. Roedd yn bleser gweld tîm bechgyn tynnu'r gelyn Llanllwni yn cynrychioli Sir Gâr yn y sioe. Roeddynt yn edrych yn smart iawn yn eu crysau a'r esgidiau newydd. Mae ein diolch fel clwb yn fawr i John ac Ann Jones, Talardd am noddi esgidiau'r bechgyn, ac i Gerwyn ac Anwen Thomas, Crossroads am noddi'r crysau. Diolch yn fawr am eich haelioni a'ch cefnogaeth i ni fel clwb bob amser. Mae ein diolch a'n dyled yn fawr iawn i rieni, ffrindiau a chefnogwyr clwb Llanllwni am eich cefnogaeth i ni fel clwb yn ystod y 70 mlynedd diwethaf. Edrychwn ymlaen yn eiddgar am fod yn rhan o'r gymuned yn Llanllwni am sawl degawd eto.

Cartref Newydd

Croeso mawr i Regan, Teresa, Lois a Iolo Thomas i'w cartref newydd yn Tergan. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith!

Sioe a Treialon C.Ff.I. Llanllwni

Ar ddydd Llun, Gŵyl y Banc, Awst 26ain, cynhaliwyd Sioe a Treialon C.Ff.I. Llanllwni. Ni allai'r tywydd fod yn fwy gwahanol i llynedd - tra buom yn ymladd da'r glaw a'r pwddel llynedd, cawsom haul tanbaid trwy'r dydd eleni. Braf oedd cael amser i fwynhau ac ymlacio allan yn yr haul yng nghwmni eraill o'r gymuned. Llywyddion y diwrnod oedd Mr a Mrs Huw Evans, Coed Parc, Llanybydder. Diolch iddynt am eu geiriau pwrpasol a'u rhodd hynod o haelionus tuag at yr achos. Bydd elw'r diwrnod yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn tuag at achosion da, ac eleni bydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Meddygfa Llynfrfan, Llandysul, a Sefydliad Prydeinig y Galon. Dyma ganlyniadau'r diwrnod **Treialon: Open National:** 1. John Whitton - Ben; 2. I.B. Jones - Tim; 3. Ron Snock - Mwsley; 4. = Wolfgang - Dana & Martha Morgan - Shane 6. Gwyn Davies - Bob.

Open South Wales: 1. C. Bowen-Perkins - Dai; 2. Daniel Jarman - Pero; 3. I.B. Jones - Tim; 4. Emyr Lloyd - Megan; 5. = John Davies - Nell & John Bowen - Bell. **Novice South Wales:** 1. C. Bowen-Perkins - Dai; 2. Daniel Jarman - Pero; 3. = John Davies - Nell & John Bowen - Bell 5. Emyr Lloyd - Tan.

Adran Blodau - Eirwyn Evans;
Adran Llysiau - Aberdeuddwr;
Adran Ceginio - High View;
Cyffeithiau & Gwin - Talardd;
Adran Ffotograffiaeth - Carol Davies; **Cynnyrch Fferm** - Allan & Ann Bellamy; **Plant Dan 7** - Mathew Williams; **Plant 7-11** - Alaw Jones; **Plant 12-16** - Miriam Cashel; **Defaid Iseldir** - Gwndwn; **Defaid Mynydd** - Blaenblodau; **Pencampwr Defaid** - Penlan-Gwnws; **Gwartheg Biff** - Blaenwaun Ganol; **Gwartheg Llaeth** - Gwarcwm & Gwarallt. **Pencampwr Gwartheg** - Glwydwern.

Diolch i bawb a wnaeth alw mewn ar y diwrnod i'n cefnogi i sicrhau diwrnod hynod o lwyddiannus.

Ysgoloriaeth Bryn Terfel



Dros benwythnos 31 Awst - 1 Medi bu chwech o brif enillwyr o dan 25 oed Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro yn cyfarfod yng Ngwersyll yr Urdd, Caerdydd i dderbyn dosbarthiadau meistr. Bu'r dosbarthiadau yn gyfle iddynt ymarfer eu darnau a pharatoi ar gyfer cystadleuaeth Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2013 ddechrau Hydref.

Bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal nos Sul, 6 Hydref yn Neuadd Fawr, Canolfan Celfyddydau Aberystwyth a'r chwech yn cystadlu am yr Ysgoloriaeth uchel ei bri, sydd â gwobr ariannol o £4,000 i'w ddefnyddio er mwyn datblygu eu talent i'r dyfodol.

Y chwech fydd yn cystadlu am yr Ysgoloriaeth eleni (oll yn y categori o dan 25 oed) fydd:-

• Chloe Angharad-Bradshaw o Hengoed, Cwm Rhymni - enillydd yr Unawd Offerynnol

- Gareth Davies o San Clêr ger Caerfyrddin - enillydd yr Unawd allan o Sioe Gerdd
- Dion Davies o Gastell Newydd Emlyn - enillydd y Cyflwyniad Theatrigr
- Trystan Gruffydd o Bontypridd - enillydd y Ddawns Werin Unigol i fechgyn
- Steffan Rhys Hughes o Langwyfan ger Dinbych - enillydd yr Unawd Cerdd Dant, Llefaru a Cyflwyniad Alaw Werin.
- Rhodri Prys Jones o Lanfyllin - enillydd yr Unawd Mae tocynnau ar gyfer y Cyngerdd yn Aberystwyth ar gael o Ganolfan y Celfyddydau ar 01970 623 232 neu arlein, www.aber.ac.uk/artscentre, ac yn costio £10. Bydd y cyngerdd yn cael ei ddarlledu yn fyw ar S4C nos Sul y 6ed o Hydref.

Llanybydder

Clwb Hoci Llanybydder

Cafwyd tymor llwyddiannus arall gan glwb hoci Llanybydder eleni eto. Cawsom sawl gêm gyffrous, a chanlyniadau arbennig. Chwaraewyr hen, profiadol ac ifanc yn dangos eu doniau!!

Yng nghinio blynyddol y clwb bu i Gemma Hope ddiolch i'w chyd-chwaraewyr a rhannodd adroddiad blynyddol y clwb. Cafodd Claire Richards ei henwebu fel capten y tymor newydd a Caryl Rees yn is-gapten. Cafodd gwobrau'r tymor ei roi i Laura Jones am sgor-wraig uchaf y flwyddyn, Gemma Hope fel chwarae-wraig y flwyddyn a Lesley Bensted fel chwaraewraig mwyaf addawol. Da iawn chi!

Mae ymarferion y tymor wedi ail ddechrau bob nos Fercher rhwng 6.30-7.30 i aelodau dan 16 ac i'r tîm hŷn 7-8.30 ar astro Llanbed. Croeso i aelodau newydd!

Llwyddiannus

Llongyfarchiadau i Aneurin Davies, Gelli Aur, Rhydybont ar ennill gwobr Codwr Arian i Elusen gyda'r Carmarthen Journal yn ddiweddar.

Cyfranu

Ar ddechrau'r flwyddyn hon bu Emyr Williams, 31 Heol y Gaer, Llanybydder yn ysbyty yng Nghasnewydd. Fe wnaeth gyfranu 'Bone marrow'. Yn ddiweddarach yr un dydd clywodd fod ei gyfraniad ar ei ffordd i faes awyr Heathrow ac wedyn i Canada. O fewn oriau roedd y cyfraniad wedi ei drawsblannu yng nghorff dyn a oedd yn dioddef o 'Leukaemia'. Mis diwethaf clywodd Emyr fod y dyn yma yn gwella yn

dda iawn.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Tegwyn, Delyth, Rhodri ac Elin Evans, Windsor Cottage ar golli ei fam a oedd yn byw ym Mheniel yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Brynmor Morris, 3 Bro Rhydybont ddiolch am y cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar ei ben-blwydd oddi wrth ei ffrindiau oll.

Côr Lleisiau'r Werin

Braint eleni eto oedd cael y cyfle i ddiddanu'r dorf yn yr eisteddfod Genedlaethol. Dewiswyd rhaglen diddorol gan ein harweinyddes Elonwy Davies ac roedd y gynulleidfa wrth eu bodd yn ymuno mewn nifer o'r caneuon. Mae'r côr yn mynd o nerth i nerth ac fe fyddwn yn ail ddechrau ar nos Iau, 5ed o Fedi am 7.30y.h. yn Ffestri Aberduar. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cerdd

Llongyfarchiadau mawr i Betsan Jones, High View, Llanllwni ar basio arholiad ysgrifenedig Gradd 5 gyda theilyngdod a Lowri Elen Jones, Glennydd, Llambled ar basiodd Gradd 7 y tymor cynt ar y piano. Roedd yr arholiadau o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Mrs Myrddina [Ina] Davies, gynt o Fronlas a fu farw yng Nghartref Cwm Aur ar ddiwedd mis Awst.



Tîm Pêl Droed dan 12 merched Llanybydder. Maent wedi cael cryn dipyn o lwyddiant dros y tymor diwethaf ond mae angen rhagor o chwaraewyr i ymuno â'r garfan erbyn mis Medi. Byddant yn chwarae mewn Cynghrair dan 14 nesaf. Y cyswllt yw Kelvin James (01570 480253).

Sioe Llambled

Cafwyd Sioe arbennig iawn i ddathlu'r 125. Bu'r tywydd yn ffafriol tu hwnt ac wedi diwrnod o gystadlu brwd, dyma enillwyr y pencampwriaethau: **Adran y Gwartheg** - Howells Tycam Llanwenog gyda'i darw Charolais; **Grŵp o Dri** - Lewis Gwarcoedeinon Llanwenog - Gwartheg Duon Cymreig; **Adran y Ceffyllau** - **Prif Bencampwriaeth** - Teulu Jones Frongoy Pennant; **March Gorau yn Adrannau A, B, C a D** - Davies Maesmynach Cribyn; **Casg Orau yn Adrannau A, B, C a D** - Teulu Jones Frongoy Pennant; **Ebol Gorau** - Davies. Llys-y-Wawr, Cwmsychpant; **Stoc Ifanc Gorau** - Jones, Bridfa Nebo; **Adran y Defaid** - Williams Llysywawr Penuwch - Hwrdd Texel; **Grŵp o Dri** - Evans, Glantrenfach, Llanybydder - Charolais; **Adran y Geifr** - Green Bryngolau, Blaenpennal; **Geifr Angora** - Lockton, Dolau Isaf, Mynachlogddu; **Adran y Cŵn** - Cafwyd Sioe arbennig unwaith yn rhagor.

Y Babel - Canlyniadau'n llawn yn y rhifyn nesaf

Adran yr Hen Beiriannau - Alun Thomas, A&B; **Beirniadu Stoc CFFI** - Ceris James, Bryngwyn; **Stonin Gorau'r Sioe** - Daltons ATV; **Rygbi 7 Bob Ochr** - Tim J & E Woodworks.

Cafwyd noson hwylus yn y Ddawns yng nghwmni Huw Bryant ac hefyd y band Nofa.

Braf iawn oedd cael cefnogaeth ein Llywyddion am eleni sef Mr a Mrs Nigel Davies o Gwmni Gwili Jones.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth diflino i'r Sioe ar hyd y blynyddoedd, yn Noddwyr, Hysbysebwyrr, Cefnogwyr, Cystadleuwyr, Beirniaid. Sylwebyddion a'r lluo o Stiwardiaid maent yn amlwg yn rhy niferus i'w henwi ond drwy gyd-weithio y sicrhawn lwyddiant eto i'r dyfodol.

Cofiwch am Ginio'r Dathlu ar y 1af o Dachwedd a'r Gymanfa Ganu ar yr 17ed o Dachwedd. Mwy o fanylion i ddod.

Mae Hanes Llanbed yn mynd i gyhoeddi llyfryn am hanes y Sioe (ynghyd â phwyllgor y Sioe). Os oes gyda unrhyw un ddeunydd - rhwch wybod i un o'r swyddogion yn fuan iawn.



Carwyn Lewis Llanwenog ac Eirian Griffiths yn derbyn Cwpan y Pencampwr yn Adran y Gwartheg Duon gan Lywydd Sioe Llambled, Nigel Davies.



Elusen

Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg bu Ffion Williams, 31 Heol y Gaer, Llanybydder yn gwneud 'Skydive' lawr ym maes awyr Abertawe. Fe wnaeth godi £677.70 at ymchwil cancr. Hoffai ddiolch i bawb a wnaeth ei noddi, ac os oes unrhywun â diddordeb i gyfrannu at yr apêl cysylltwch â ffôn ar 01570 481813 / 07450979360 neu drwy'r wefan ar - <https://www.justgiving.com/Ffion-Williams2/>

Llangybi a Betws

Cyrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon ar Fedi 18fed – prynhawn Dydd Mercher yn unig am 2.00y.p. Pregethwr gwadd fydd y Parch Geraint Davies, Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.

Ar brynhawn Sul, Medi 22ain am 2.00y.p. cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch Ebeneser. Y gŵr gwadd yw y Parch Denzil Morgan o Llambed. Croeso cynnes i bawb.

Fe fydd Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Betws ar Hydref 4ydd ac Eglwys Sant Cybi ar Hydref 6ed am 7.00y.h. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mr Huw Evans a'r teulu yn Godre'r Coed yn eu profedigaeth lem o golli mam Huw. Cydymdeimlir â'r holl berthnasau eraill hefyd.

Adferiad

Dymunwn adferiad buan i Mr Dilwyn Pugh, Bro Felin ar ôl iddo dreulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais.

Hefyd i Mr Allan Jones, Hengoed yntau wedi bod yn yr ysbyty.

Dymunir adferiad buan a llwyr hefyd i Mr John Pugh, Glangorn ar ôl iddo yntau dreulio cyfnod ym Mronglais.

Brysiwch wella eich tri.



Ym mis Awst, dathlodd Mrs Margaret Dalton a'i theulu, 50 mlynedd o ffermio yng Nghelligarneddau, Llangybi, Llambed drwy gynnal diwrnod o weithgareddau i godi arian ar gyfer y Royal Agricultural Benevolent Institution - R.A.B.I., yng Ngheredigion.

Llwyddwyd i godi oddeutu £1400 yn ystod y diwrnod i gynorthwyo gyda'r gwaith i gefnogi amaethwyr mewn angen yng Ngheredigion.

Yn y llun gwelir, o'r chwith i'r dde: Mrs Margaret Dalton, Elin Jones AC, Mark Williams AS, Steve Hunt (Cadeirydd Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion), a Malcolm Thomas MBE (Is-gadeirydd R.A.B.I.).

Sioe Llambed

Llongyfarchiadau i David Thomas, Maesfforest ar ennill y wobwr gyntaf a 'Special Champion' yn Sioe Llambed am y 'Meadow Hay'. Da iawn.

Cofeb i'r Cymry yn Fflandrys

Apêl daer am help

Bydd y flwyddyn 2014 yn nodi'r can mlynedd ers dechrau'r Rhyfel Byd cyntaf. Yn ystod y gwrthryfel hwnnw fe gollasom ni'r Cymry fwy o'n meibion mewn cyfartaledd nag unrhyw genedl arall. Bu farw o leiaf 20,000 o ddynion Cymraeg eu hiaith, ac o dde Cymru ddiwydiannol hyd yn oed fwy. Nid oedd un pentref yng Nghymru heb ei effeithio. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r colledion yn Fflandrys, yn enwedig yn Paschendale lle colodd y 38ain adran Gymreig, (cynnyrch meddwl Lloyd George), gymaint gan gynnwys y bardd 'Hedd Wyn'. Gwasanaethodd llawer o filwyr Cymru mewn catrodau di-Gymraeg; llawer mewn catrodau canonau a rhai cynorthwyol eraill, yn ogystal â'r lluoedd twnelu unigryw a oedd yn recriwtio cymaint o lowyr Cymru. Cofiw'n yr effaith gafodd hyn ar gefn gwlad Cymru, pan ddychwelodd y bechgyn i fywydau di-waith, digartref a fawr ddim o gefnogaeth ariannol fel cydnabyddiaeth am eu haberth.

Tra bod gan Awstralia, Canada, Seland Newydd, Iwerddon ac yn ddiweddar yr Alban gofebion mawr i anrhydeddu rhai syrthiedig y gwledydd hynny, nid oes gennym ni'r Cymry'r fath gofeb, y fath fan ymgynnull. Y cyfan sydd gennym yw cerrig beddau unigol wedi'u gwasgaru dros ardal o faint hanner gwaelod Sir Aberteifi.

Yn 2014, bydd pobl yn ymgynnull a bydd gwasanaethau yn cael eu cynnal yn ymyl y cofebion cenedlaethol i gyd. Nid oes gennym unman i fynd yn Fflandrys lle mae cymaint o'n meibion yn gorwedd. Gyda'n gilydd gobeithiwn y gallwn unioni'r cam a gawsom erbyn y dathliadau yn 2014, a hynny trwy godi cofeb ein hunain ar yr union fan lle lladdwyd ein bardd cenedlaethol, Hedd Wyn.

Bydd y gofeb ar ffurf 'cromlech', adeilad cyffredin yng Nghymru a'r gwledydd Celtaidd eraill. Bydd yn cynnwys tri maen unionsyth, gyda maen mawr ar ben y meini wedi'i goroni â draig goch. Bydd yn cynnwys yr aysgrif 'i bob person o dras Gymreig a roddodd ei fywyd yma yn


Fflandrys rhwng 1914 a 1918.' I gyflawni'r gwaith yr ydym yn gobeithio codi £80,000. Mae James Lloyd, Llain gynt yn aelod o bwyllgor sydd â'r cyfrifoldeb i sicrhau bod y fenter hon yn llwyddo. Mae dros £35,000 wedi ei godi yn barod, ond i gyflawni'r gwaith, mae eisiau tua £80,000.

Meddai Jim, "Rwy'n teimlo'n gryf am hyn. Pam bod yn rhaid i ni fod yn wahanol i bob gwlad arall"? Rwy'n cofio mynd yn blentyn i ffair Llanybydder a gweld rhes o ddynion yn eistedd mewn cadeiriau olwyn, neu yn pwyso ar ffyn yn "cardota" am gymorth i fyw. Rwy'n cofio hefyd treulio oriau cysurus yng nghwmni Dafydd Jenkins, Argoed, Gorsgoch, a fe hefyd yn ei gadair olwyn, oherwydd anafiadau yn y rhyfel mawr. Felly, dyma gyfle i bawb sydd am ddewis, i gyfrannu rhywbeth at y gofeb ac i gofio'r amser hynny."

Y mae Jim hefyd yn trefnu cyngerdd mawreddog yng nghapel y Tabernacle, Treforus ar y 5ed o Hydref 2013 er mwyn codi arian at yr achos. Fe fydd Côr Rygbi Gogledd Cymru a Chôr Rygbi Treforys, Abertawe yn rhannu'r llwyfan gyda'r tenor Trystan Llŷr Griffiths, y soprano Elin Mai, ar telynor Dylan Cernyw. Efallai y byddai'n well gan rai gefnogi'r apêl trwy fynychu'r cyngerdd.

Y mae gan yr ymgyrch gyfrif yn Lloyds TSB, o dan y pennawd 'The Welsh memorial in Flanders Campaign': Còd didoli:30-93-53. Rhif y cyfrif: 37974560.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Jim Lloyd ar y rhif ffôn 01792 775600.



Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Croeso cynnes i bawb!

W.D.
Lewis
a'l Fab
Macnachwyr / Macnachwyrddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Anglad
- Digwyddiadau Maes



Bwydleni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambed.

01570 423955
www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS
& BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford,
Llambed

01570 422206 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregeron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Eisteddfod Rhys Thomas James

Bu Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn un lwyddiannus iawn unwaith yn rhagor dros ŵyl y banc. Agorwyd yr Eisteddfod gan Lena Daniel, Cadeirydd y Pwyllgor gwaith ac yn ei haraith mi wnaeth gydnabod dylanwad ei theulu ac unigolion ei phentre genedigol Cribyn arni hi a'i phlant dros y blynyddoedd. Y beirniaid am y penwythnos oedd fel a ganlyn

Canu- Patricia O'Neill, Geraint Roberts, Margaret Daniel a Fflur Wyn Cerdd Dant ac Alaw Werin - Rhodri Harries
Llefaru - Y Parchedig John Gwilym Jones, Ian Lloyd Hughes ac Ann Pash Llenyddiaeth - Y Prifardd Tudur Dylan Jones ac Arwel Jones
Celf a Chrefft- Mair Jenkins

Bu cystadlu brwd yn yr adran gyfyngedig ar y Dydd Sadwrn ac mi welwyd cystadlu o safon uchel iawn gan yr eisteddfodwyr lleol. Ella Evans, Felinfach enillodd y Rose bowl - sef gwobr er cof am Mrs. Ray Morgan yn rhoddedig gan Brethyn Cartref i'r cystadleuwyd mwyaf addawol o dan 12. Mr. Pete Ebbsworth oedd llywydd y dydd ac yn ei araith mi wnaeth sôn am ei falchder o gael ei ddanfôn gan ei rieni di-gymraeg i Ysgol Rhydfelen a'r drysau a wnaeth agor iddo o ganlyniad i'r penderfyniad hyn.

Enillwyd y Goron am gerdd ar y testun Dyled gan John Meurig Edwards, Aberhonddu ond sydd a'i wreiddiau'n ddwfn yn ardal Ponrthydygroes. Cyflwynwyd y ddawns i gyfarch y buddugol gan ddisgyblion Ysgol Llanwnnen a 'roedd y bardd buddugol a'r gynulleidfa wrth eu bodd yn gwyllo'r dawnsywyr wrth eu gwaith. Dewi Uridge ddaeth i'r brig yn yr Adran Gelf a Chrefft ac fe gyflwynwyd tlws Ieuenctid iddo am ei gampwaith. Dan ofal Hedydd Thomas fe wobrwyyd y gadair i rai dan 25 oed i Siwan Davies Llanwenog a Tlws yr Ieuenctid o dan 25 am stori fer i Mared Roberts, Pentre'r Bryn, Synod Inn.

Braf oedd gweld saith Parti Ensemble yn ceisio am gwpan sialens Corisma a hyfryd oedd gweld mae'r parti ifanca' - Merched Bro Pedr Iau yn cipio'r wobr cyntaf.

Yn newydd ar y rhaglen eleni oedd 'Sgen ti Dalent, sef cystadleuaeth yn agored i unigolion neu grwpiau- cyfle i action, lefaru dweud jocs UNRHYW BETH fyddai'n difyrnu'r gynulleidfa! Mi wnaeth Ysgol Bro Pedr Iau ennill o dan 16 yn dawnsio disgo egniol tu hwnt- a gwledd o liwiau ar y llwyfan ac yn sicr mi wnaeth perfformiad fuddugol dros 16 - Elliw Dafydd aros yn y cof am hir - 'roedd y neuadd yn atsain gan yr holl chwerthin wrth i Elliw ein cludo i fyd comedi. 'Roedd gwobr Elliw o £50 yn rhoddedig gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru ac rwy'n siwr y gwelwn y gystadleuaeth yma yn mynd o nerth i nerth yn y blynyddoedd nesaf.

Bore Sul fe gynhaliwyd yr oedfa yn Capel Noddfa Llambled. Braf oedd croesawu gwyneb cyfarwydd Y Parchedig Eirian Lewis i'r gwasanaeth. Cafwyd anerchiad diddorol iawn ganddo a hyfryd hefyd oedd gweld ieuenctid y Capel yn cyfrannu'n raenus. Diolchodd gweinidog y Capel, Y Parchedig Jill Tomos i Janet a Llinos am eu cymorth gyda'r oedfa.



Menna Cazel Davies, Rhondda Cynnon Taf yn ennill y brif wobr o £1,000 o bunnoedd yng Nghystadleuaeth Llais Llwyfan Llambled a hefyd tlws yn rhoddedig gan Twynog Davies er cof am ei briod Hazel.



Enillwyd y Goron yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen am gerdd ar y testun 'Dyled' gan John Meurig Edwards, Aberhonddu ond sydd a'i wreiddiau yn ddwfn yn ardal Ponrthydygroes. Gydag ef mae aelodau y ddawns flodau o Ysgol Llanwnnen.

Nos Sul, wedi prynhawn o ragbrofion, fe gynhaliwyd Llais Llwyfan Llambled, yn agored i gantorion dan 30 oed. Mr. Twynog Davies, a gymrodd at yr awenau ar fyr rybudd, oedd arweinydd y noson. Yr enillydd eleni, wedi cystadlu o safon uchel iawn, ynghyd â gwobr o fil o bunnau oedd Menna Cazel Davies o Bontypridd.

Dydd Llun gyda'r haul yn tywynnu'n braf dros y fro mi ddaeth y cystadleuwyr o bell ag agos i gystadlu. Y Cynghorydd Dorothy Williams, Maeres gweithgar Llanbedr Pont Steffan agorodd yr eisteddfod a braint yw cofnodi mae dyma'r pumed waith iddi ymgymryd â'r swydd. Mr. David Williams Pennaeth Bro Pedr oedd llywydd y dydd ac yn ei araith mi wnaeth esbonio pwysigrwydd y gymuned a'r eisteddfod i lwyddiant Ysgol Bro Pedr - sef yr Ysgol 3-19 gyntaf yng Nghymru. Mi wnaeth hefyd osod

her i'r pwyllgor gwaith i ddenu ieuenctid talentog y fro i fod yn rhan o drefniadau'r Eisteddfod yn y dyfodol.

Enillydd y fedal Ryddiaith oedd Dafydd Guto Ifan, Pen Isa'r Waun a Philippa Gibbson o Bontgarreg enillodd y gadair. Esboniodd Dorian Jones ysgrifennydd gweithgar iawn y pwyllgor gwaith mai Tiwtor Cymraeg sydd wedi dysgu siarad Cymraeg yn y ddegawd diwethaf yw hi a dyma'r gadair gyntaf iddi ennill. Cynhaliwyd Ymryson y Beirdd yn festri Shiloh ac yn ôl y beirniad mi roedd safon yr adran lenyddiaeth yn rhagorol drwy'r penwthnos.

Cyflwynwyd Rose Bowl Dydd Llun Elin Fflur, o Bwlltrap ger San Clêr i'r cystadleuwyd mwyaf addawol o dan 16. Mi gafwyd cystadlu brwd drwy gydol y dydd gyda'r beirniad yn canmol yn uchel safon lleisiau canu'r cystadleuwyr. Bu'r cystadlu yn mynd yn ei flaen gyda Steffan Rhys Hughes, o Langwyfan, Dinbych yn ennill y Brif Gystadleuaeth Lefaru dan 25, a Lowri Elen Llambled yn ennill yr unawd allan o Sioe Gerdd (yn agos i 20 yn y rhagbrawf!) Cafwyd diweddsglo bendigedig i'r ŵyl wrth i Lowri Daniel gipio'r wobr am y brif Gystadleuaeth Lefaru dros 25 a John Davies Llandybie yr Her Unawd. Diolchodd Dorian Jones i holl noddwyr y penwythnos am eu cefnogaeth hael unwaith yn rhagor, i'r stiwardiaid lluosog am eu trefniadau trylwyr, i staff Bro Pedr am eu cymorth gyda'r Neuadd ac yn arbennig i'r gynulleidfa am eu diddordeb i sicrhau llwyddiant yr ŵyl. Mi adawodd pawb Neuadd Bro Pedr ganol nos yn hapus iawn fod Eisteddfod lewyrchus arall wedi cael ei chynnal yn y dref.

Gohebiaeth



"Nid oedd i'w gael yng ngwlad y Sais. Ail Dafydd Lloyd a'i felys lais."

Fel yna y canodd y prifardd Tilsli, i'r tenor enwog David Lloyd. A meddai Rhys Meirion amdano "Cyffyrddodd yng nghalonau ei gynulleidfa, am ei fod yn canu o'r galon, a'r galon honno, ar brydiau, bron a thorri.

Profodd "wae a gwynfyd, nef ac uffern bob yn ail", a'm gobaith yw y bydd y cofiant iddo, yn adrodd hanes y dyn, yn ogystal â hanes y tenor

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth o gwbl am David Lloyd, neu os wyddoch chi am rywun sydd wedi casglu gwybodaeth amdano- byddwn yn falch iawn o glywed gennych. Gallwch gysylltu â mi drwy lythyr neu ebost.

Hywel Gwynfryn, 53 Heol Wingfield, Eglwysnewydd, Caerdydd CF14 1NJ neu hywel.gwynfryn@bbc.co.uk

Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

11eg o Hydref 2013

Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30

MYNEDIAD £2

Arweinydd y noson
Geraint Lloyd

Neuadd
Felin-fach

Beirniad
Gareth Lloyd

O'r Llwyfan

Dweud stori ddoniol

Darllen darn heb ei atalnodi.

Datganiad cerddorol gan ddefnyddio eitem/eitemau o'r cartref.
Gyda chyfeiliant neu'n ddigwyfiant.

Sgets neu ddeialog - stori fwy'r fro.

Cor Chwibanu (ton ar y nos!)

Dyfarnir marciau ymhoher cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3 i'r sawl ddaw yn ail ac 1 i'r trydydd.
Cyflwynir tlws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu

Gwaith Cartref

Slogan— gwerthu eich papur bro

Dysgwyr - erthygl i'r papur bro am ddysgu cymraeg.

Plant oed gynradd - paentio hoff gymeriad o lyfr.

Pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed - blog yn mynegi'ch barn ar bwnc cyfoes.

Brawddeg - CYMUNED.

Gorffen Limerig - Mi welais drwy gornel fy llygad.

Creu poster i ddenu hysbysebion i'ch papur bro.

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw) erbyn yr 2ail o Hydref at Gareth Lloyd : Hafancletwr, Talgarreg, Llandysul SA44 4XD

Anfonwch eich manylion cyswllt, gyda'ch ffugenw ac enw eich papur bro i Cered erbyn yr un dyddiad.
Cered, Campws Addysg Felin-fach, Dyffryn Aeron, SA48 8AF

Cefnogwch eich papur bro!

Y Lolfa

CERED
Pennaeth Bro Ceredigion



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Shwmae? Wel mae'r haul wedi bod yn gwenu arnom yn ystod gwyliau'r haf eleni. Beth fuoch chi'n gwneud yn ystod y gwyliau? Wel mi fues i yn adeiladu cestyll tywod yng Nghei Bach, am dro yn y parc, am drip i'r sw a chael sawl picnic gyda'm ffrindiau. Gwyliau bendigedig!! Ond nawr mae'n amser i'r ysgol ail ddechrau a chyfle i weld hen ffrindiau a chwrdd â ffrindiau newydd.

Wel cefais lond clos o gneifwyr lliwgar dros yr wythnosau olaf yma. Roeddwn yn hoff iawn o gneifiwr Siôn Davies o Lanllwni, Steffan Hedd Howells o Lanwenog, Jac Rees o Gwmsychpant, Rhodri Jenkins o Fydrilyn, Steffan Rhys Jones a Lowri Hana Jones o Lanarth ac Alwena Mair Owen oo Lanllwni. Ond y llun taclusaf a'r un mwyaf lliwgar oedd un Holly Davies, 117 Heol Rhyddwen, Craig Cefn Parc, Abertawe. Da iawn bawb a llongyfarchiadau i ti Holly!


Nawr beth am fynd ati i liwio llun o'r ysgol? Cofiwch ei ddychwelyd i mi cyn dydd Llun, Medi 23ain. Mwynhewch eich liwio!

Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Holly
Davies



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne

RHAI O ENWAU EISTEDDFOD BRO DINBYCH (55)

DINBYCH

Ystyr yr enw yw 'caer fechan' a'r elfennau yw 'din' sef caer neu gadarnle a 'bych(an)'. Codwyd yr amddiffynfa hynafol wreiddiol yng nghwmwd Cinmeirch tua 1230 ar dir a roddwyd gan Lywelyn ab Iorwerth (Llywelyn Fawr c.1173-1240) i'w ferch Gwenllian. Priododd Gwenllian â William Lacey (m. 1240), un o arglwyddi'r Mers. Roedd gwreiddiau teulu William, gŵr Gwenllian, yn Lassy, Normandi. Am rai canrifoedd bu'r twmpath yn cael ei alw'n Llys Gwenllian. Erbyn heddiw talfyrrwyd hwnnw'n Llys; fe'i gelwir yn ogystal yn Hen Ddinbych.

Yn y Canol Oesoedd roedd '-ch-' yn gyffredin yn yr iaith Saesneg ac yn cael ei chynrychioli yn yr orgraff gan '-gh-'. Diflannodd y sain o Saesneg llafar yn ystod y 15 a'r 16 ganrif. Ond mae'r hen sain ddiiflanedig yn dal i gael ei chynrychioli yn sillafiad geiriau Saesneg megis 'cough, Keighley, bough, through a Vaughan (Fychan)'.

Roedd yr '-ch' Gymraeg hefyd yn cael ei chynrychioli gan '-gh-' yn y Saesneg. Gyda diflaniad y cynaniad hwnnw, datblygodd y ffurf seisnigedig Denby (Denbigh).

Ystyr Cinmeirch yw 'cefn neu drum y meirch'. Yr elfen gyntaf yn yr enw hwn yw 'cain' sef cefnen neu drum; 'meirch', lluosog march yw'r ail elfen.

Yn 1283 cododd Edwart I gastell newydd a thref newydd prin filltir i'r gogledd o'r hen safle yn Ninbych. O dipyn i beth cefnodd y trigolion ar y dref gaerog ar y llethr serth a datblygodd anheddiad newydd ar waelod y bryn.

RHUTHUN

Ystyr yr enw yw 'ffin neu ymyl coch'; a'r elfennau yw 'rhudd' sef coch a 'hin' sef ffin neu ymyl neu derfyn. Gall 'hin' gyfeirio naill ai at afon Clwyd neu at liw coch y tywodfaen yn adfeilion y castell sy'n perthyn i'r 13 ganrif. Dyma'r Castell Coch yng ngwernfor. Yr elfennau yn gwernfor yw 'gwern' sef cors a 'mawr'.

O ystyried tarddiad yr enw, gellid disgwyl i'r enw ddiweddu yn -in. Ond mae'n siwr i'r 'u' yn y sillaf gyntaf ddylanwadu ar sillafiad yr enw a Rhuthun yw'r ffurf a ystyrir yn safonol erbyn hyn.

Bodolai arglwyddiaeth Normanaidd fechan o'r enw Rhuthun ym Morgannwg yn ogystal: cynhwysai blwyfi Llanharan, Llanilid, Llanbedr-ar-fynydd ac Eglwys Fair y Mynydd.

PRESTATYN

Ystyr yr enw yw 'fferm yr offeiriad'. Roedd ffermydd a oedd naill ai'n cynnal neu cael ei ffermio gan offeiriad yn reit gyffredin. Yn Llyfr Doomsday (1086) y ffurf ar yr enw sy'n digwydd yw 'Prestetone' a'r elfen gyntaf yn cynrychioli ffurf mewn Hen Saesneg sy'n golygu 'offeiriad' a'r ail elfen yn cynrychioli'r Hen Saesneg tŷn 'anheddiad, fferm'.

Mae union ffurf yr enw'n awgrymu bod gwŷr Mersia wedi goresgyn y llain arfordirol. Ond rhoddodd y Cymry eu lliw eu hunain ar yr enw: cadwyd y sillaf ganol a throdd 'tŷn' yn '-tyn' fel sydd wedi digwydd mewn enwau eraill megis Mostyn, Mertyn a Golftyn.

Yn Lloegr, fel rheol, byddai enw lle megis Prestetone wedi datblygu'n 'Preston'.

Enw arall sy'n cynnwys yr un elfen gyntaf â Prestatyn yw Presteigne. Ystyr debygol yr enw hwn yw 'dôl ar y ffin sy'n eiddo i'r offeiriad' gyda'r Hen Saesneg 'hemm' (ffin) a 'mead' (dôl). Mae'r enw Cymraeg sef Llanandras (eglwys St Andreas) yn llawer haws i'w esbonio ac yn yr eglwys honno, mae'n debyg, y byddai'r offeiriad yn gwasanaethu.

Tras Sgandinafaid a briodolir i Priestholm, sef Ynys Seiriol, yn Sir Fôn sy'n cynnwys yr elfennau 'prestr' (offeiriad) a 'holmr' (ynys).

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com



Sioeau lleol - Cwmsychpant, Gorsgoch, Llambed a Llanllwni



Mam a merch yn ennill y marciau uchaf sef Wendy Davies, Caerwenog yn ennill yn Adran y Coginio a Meinir yn ennill yn Adran y Plant 12-17 oed yn Sioe Cwmsychpant.



Enillydd yn yr Adran Goginio yn Sioe Gorsgoch oedd Gwyneth Morgans, Pensarnau, Gorsgoch.



Margaret Jones, Cwrtnewydd enillodd y darian am y marciau mwyaf yn nosbarth y gwinoedd a chyffeithiau. Enillodd Margaret hefyd y cwpan am y marciau mwyaf yn y babell.



Erika Davies, Capel y Groes, Llanwnnen enillodd y marciau uchaf yn Adran y Blodau ac hefyd mi dderbyniodd y Silver Salver am y marciau uchaf yn y babell yn Sioe Llambed.



Sioned Russell, Cwmann yn derbyn y wobwr arbennig am ei chacen siocled yn yr Adran Goginio yn Sioe Llambed.



Aeth y wobwr am y grŵp o dri rhyngfyrd yn Sioe Llambed i Huw, Bronwen a Sioned Evans, Llanybydder gyda'i defaid Charollais.



Enillydd y Gadair yn Llambed oedd Phillipa Gibson, Pontgarreg, un sydd wedi dysgu Cymraeg ac yn awr yn aelod o dîm Talwrn y Beirdd Ffostrasol. Gyda hi mae plant y ddawns werin o Ysgol Llanwnnen.



Sion Evans, Cadeirydd C.F.F.I. Llanllwni yn cyflwyno blodau i llywyddion Sioe a Threialon Cŵn Defaid Llanllwni 2013 Huw ac Olga Evans, Coedparc, Llanybydder.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen



Canu 6 – 9 oed [Cyf] 1. Ffion Mai Davies, Llanybydder; 2. Elen Morgan, Drefach; 3. Logan Jones, Llanybydder; 4. Regan Jones, Llanybydder.

Llefaru 6-9 oed [Cyf] 1. Ffion Mai Davies, Llanybydder; 2. Luned Haf Jones, Cwmsychpant; 3. Gregory Webb, Llambled; 4. Elen Morgan, Drefach; 5. Logan Jones, Llanybydder.



Unawd 9-12 oed [Cyf] 1. Ella Evans, Felinfach; 2. Megan Mai Jones, Blaencwrt; 3. Sioned Fflur Davies, Llanybydder; 4. Hanna Davies, Drefach; 5. Nia Beca Jones, Blaencwrt.



Canu Emyr dan 12 oed [Cyf] 1. Ella Evans, Felinfach; 2. Nia Eleri Morgans, Gorsgoch; 3. Sara Elan Jones, Cwmann; 4. Megan Mai a Nia Beca Jones, Blaencwrt [y ddwy yn absennol o'r llun].



Celf a Chrefft - Unigol – Elan Jones, Ysgol Bro Pedr



Offeryn Cerdd Dan 12oed [Cyf]
- 1. Austin Thomas, Llambled



Unawd dan 6 oed [Cyf] 1. Megan Morris, Felinfach. 2. Louis Jones, Llanybydder. **Llefaru dan 6 oed [Cyf]** 1. Louis Jones.



'Sgen ti Dalent dros 16 oed - 1. Elliw Dafydd Silian; 2. Lowri Elen Jones, Llambled; 3. Ianto Jones, Cribyn; 4. Ben Webb, Llambled; 5. Gwawr Hatcher, Gorsgoch.



Celf a Chrefft - Eitem Orau – Dewi Uridge, Ysgol Bro Pedr



'Sgen di Dalent dan 16 oed - 1. Grŵp Dawnsio Disgo Ysgol Bro Pedr [Iau]



Ensemble Lleisiol - 1. Ysgol Bro Pedr